



ADRODDIAD YMGYNGHORI

Ysgol Uwchradd John Summers

GORFFENNAF 2015

Mynegai

Rhif	Adran	Tudalen
1	Cyflwyniad	3
2	Y Cynnig a'r ymgynghoriad	3
3	Cyfnod Ymgynghori	4
4	Materion Allweddol a godwyd gan yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad	6
5	Ymateb gan Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol	12
6	Ymateb gan Estyn	12
7	Ymateb gan y Llywodraethwyr	17
Atodiad 1	Drafft Cynllun Pontio y Cwricwlwm a Mynediad 2015-2019	
Atodiad 2	Adroddiad Cabinet a Phecyn Data – Oedi ac Adolygu	
Atodiad 3	Potensial Datblygiad Preswyl a Statws Cynllunio Safle Datblygu Defnydd Cymysg Porth y Gogledd.	

1. Cyflwyniad

1.1 Yn dilyn diwedd cyfnod ymgynghori ar drefniadaeth ysgolion, mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynigydd (y Cyngor) gyhoeddi adroddiad ymgynghori. Yn y ddogfen hon mae gofyn i'r cynigydd:

- Grynhoi pob un o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion.
- Ymateb i'r rhain trwy egluro.
- Egluro safbwynt Estyn (fel y nodwyd yn eu hymateb i'r ymgynghoriad) o fanteision cyffredinol y cynnig.

1.2 Dylai'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau ystyried yr adroddiad hwn cyn llunio unrhyw argymhelliad sy'n ymwneud â'r cynnig.

2.0 Y Cynnig a'r Ymgynghoriad

2.1 Ar 17 Chwefror 2015, penderfynodd y Cabinet:

Gynnal cyfnod ymgynghori ffurfiol gyda budd-ddeiliaid allweddol ar gyfer yr ardal ynglŷn â sut i sicrhau addysg o ansawdd uchel sy'n gynaliadwy ac yn wydn yn yr ardal i'w adrodd i'r Cabinet yn y dyfodol.

2.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Dechreuodd y cyfnod Ymgynghori ar 5 Mehefin 2015 a daeth i ben ar 17 Gorffennaf 2015.

2.3 Yn unol â'r cod, cyhoeddwyd dogfennau ymgynghori gan gynnwys fersiwn ar gyfer plant a phobl ifanc ar wefan Cyngor Sir y Fflint ar 5 Mehefin 2015.

2.5 Anfonwyd copïau caled o'r ddogfen ymgynghori i ysgolion lleol a Chanolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu ar gyfer unigolion heb fynediad i'r rhyngwrwyd.

2.6 Cynhyrchodd y Cyngor ddogfen ymateb i gynorthwyo ac annog pobl i gyflwyno eu safbwyntiau. Roedd hyn yn ffurfio rhan o'r Ddogfen Ymgynghori ac roedd wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor hefyd. Roedd y fersiwn ar gyfer plant a phobl ifanc o'r Ddogfen Ymgynghori yn cynnwys ffurflen ymateb symlach. Trawsnewidiwyd y ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad yn arolwg arlein. Roedd dolenni i'r arolwg hefyd wedi'u cyhoeddi ar y wefan.

2.7 Derbyniodd yr holl ymgynghoreion e-bost gyda dolen yn eu cyfeirio i'r ddogfen ymgynghori ffurfiol a dogfennau ategol ar ddiwrnod cyntaf yr ymgynghoriad (5 Mehefin 2015).

2.8 Cynhyrchwyd y dogfennau mewn Cymraeg a Saesneg.

3.0 Cyfnod Ymgynghori

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 5 Mehefin 2015 a daeth i ben ar 17 Gorffennaf 2015. Cynhaliwyd y cyfnod yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cod).

3.1 Digwyddiadau Ymgynghori

Er nad yw'n ofynnol yn y Cod, roedd y Cyngor wedi trefnu'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau canlynol:

Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori ar gyfer pobl ifanc ar 23 Mehefin 2015 gan swyddogion ymgysylltu o'r Gwasanaeth Ieuencid.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ar-wahân ar 25 Mehefin 2015 gyda:

- Athrawon a Staff Cefnogi Ysgol Uwchradd John Summers
- Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd John Summers
- Rhieni a Gofalwyr Ysgol Uwchradd John Summers ac ysgolion cynradd cyfagos.

Cynhaliwyd cyfarfod gyda Phenaethiaid yr ysgolion cynradd cyfagos ar 29 Mehefin 2015.

Cynhaliwyd cyfarfod ychwanegol gyda'r Corff Llywodraethu ar 6 Gorffennaf 2015.

3.2 Ymateb i'r Ymgynghoriad

Derbyniwyd cyfanswm o 593 o ymatebion yn ystod y cam ymgynghori. Roedd y rhain yn cynnwys ymateb gan Estyn ar ffurf adroddiad. Derbyniwyd nifer o ymatebion ar ffurflenni ymateb electronig a llythyrau.

Mae'r tabl isod yn dangos y dulliau a ddefnyddiwyd gan bobl i ymateb i'r ymgynghoriad:

Dull cysylltu	Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	363
Ffurflen Ymateb Plant a Phobl Ifanc	208
Llythyrau a negeseuon e-bost	14
Llythyrau a negeseuon e-bost – Plant a phobl ifanc	8
Cyfanswm y cysylltiadau	593

Nodir manylion y mathau o ymatebion isod:-

Rhif	Math o Ymateb	Nodi cysylltiadau ag Ysgol Uwchradd John Summers		Arall		Cyfanswm
		Gwirioneddol	%	Gwirioneddol	%	
1	Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	273	47.81%	298	52.19%	571
2	Llythyrau a negeseuon e-bost	22	100%	0	0%	22
Cyfansymiau		295		298		

Manylion Ymatebion gan Aelodau Cynulliad a'r Aelodau Seneddol

Rhif	Math o Ymateb	Ymateb gan Aelodau Cynulliad a'r Aelodau Seneddol	
		ACau	ASau
1	Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	0	0
2	Llythyrau a negeseuon e-bost	1	1
Cyfansymiau		1	1

Dadansoddiad o Wybodaeth Deiseb

Rhif	Math o Ymateb	Nifer y llofnodion
1	Deiseb ar-lein:	1116
2	Deiseb ar bapur:	2024
Cyfansymiau		3140

Ffurflenni Ymateb a gohebiaeth

Dyluniwyd y Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad i nodi:

- A oedd pobl yn cytuno neu'n anghytuno â'r newid i ystod oedran Ysgol Uwchradd John Summers.
- A oedd pobl yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gau Ysgol Uwchradd John Summers;
- Y niferoedd oedd yn ymateb;
- A oeddent yn gysylltiedig â'r ysgol ai peidio;
- A oeddent yn awyddus i wneud unrhyw sylwadau eraill

Mae copi o'r holl ohebiaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ar gael yn yr Adroddiad Gohebiaeth ar wefan Cyngor Sir y Fflint.

4.0 Materion Allweddol a godwyd gan yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Mae dadansoddiad o amllder y materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad wedi'i gwblhau. Mae materion yr ymatebwyr wedi'u dosbarthu'n themâu.

Mater Allweddol 1: Cludiant a Theithio

Mynegodd nifer o ymatebwyr y pryderon canlynol:

- Cynnydd yn yr amser teithio ar gyfer y disgyblion
- Cynnydd yn y costau teithio i ysgol uwchradd newydd posibl
- Cynnydd yn y tagfeydd yn yr ardal
- Canfyddiad bod llwybrau cerdded i ysgolion uwchradd eraill yn beryglus

Ymateb i Fater Allweddol 1: Cludiant a Theithio

Mae'r ddogfen ymgynghori yn glir yn yr asesiad o'r effaith ar ddysgwyr mewn perthynas â chludiant o'r cartref i'r ysgol. Bydd y cynnig yn arwain at gynydd mewn amseroedd teithio ar gyfer y mwyafrif o'r disgyblion, fodd bynnag mae rhain o fewn y canllawiau ar gyfer amseroedd teithio dan y Mesur Cludiant.

Er y bydd rhai disgyblion yn gymwys i dderbyn cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim dan y pellter statudol o dair milltir o'r cartref i'r ysgol, ni fyddai mwyafrif y disgyblion yn gymwys.

Cost gyfredol cludiant i Ysgol Uwchradd John Summers yw £59,470.

Gallai'r Awdurdod trwy'r Cabinet ystyried cynnig trefniadau cludiant pontio dewisol ar gyfer y garfan ysgol bresennol gyda chost blynyddol a amcangyfrifwyd yn £135,125, cynnydd o £75,655 yn 2017/18, gan leihau yn y blynyddoedd dilynol. Byddai hyn yn cefnogi'r cynlluniau pontio ac yn mynd i'r afael â maes pryder allweddol ar gyfer y myfyrwyr, rhieni a gofalwyr presennol.

Byddai cost cludiant i gefnogi parhad TGAU yn tua £20,000 ar gyfer 2016/17.

Bydd materion yn ymwneud â chludiant yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ar yr adeg briodol.

Mater Allweddol 2: Cefnogaeth Pontio

Mynegodd nifer o ymatebwyr y pryderon canlynol:

- Pontio o'r chweched dosbarth cyfredol yn Ysgol Uwchradd John Summers i'r ganolfan ddysgu ôl 16 newydd.
- Pontio o Ysgol Uwchradd John Summers i ysgolion uwchradd eraill pe bai Ysgol Uwchradd John Summers yn cau
- Newid yn y cwricwlwm ar gyfer dysgwyr ôl 16.
- Newid yn y cwricwlwm ar gyfer yr holl grwpiau blwyddyn 7-11 pe bai Ysgol Uwchradd John Summers yn cau.
- Effaith ar grwpiau ffrindiau
- Newid mewn staff addysgu

Ymateb i Fater Allweddol 2: Cefnogaeth Pontio

Cydnabyddir y gall newid sefydliadol mewn ysgol achosi pryder i rieni a gofalwyr, disgyblion, staff a'r gymuned ehangach ar draws nifer o faterion, gan gynnwys dilyniant Addysg.

Mae cefnogaeth pontio eisoes ar waith ar gyfer y cynigion ar gyfer darpariaeth dysgu ôl 16. Mae'r cynllun pontio'n canolbwyntio ar ofynion y dysgwyr ac yn ceisio lliniaru'r risg ar ddilyniant addysg pe bai'r Gweinidog yn penderfynu cau Ysgol Uwchradd John Summers.

Mae'r broses statudol o ran posibilrwydd cau'r ysgol wedi'i chynllunio i gyd-fynd ag amseru dewisiadau opsiwn TGAU ar gyfer ysgolion uwchradd lleol. Disgwylir penderfyniad y Gweinidog erbyn diwedd mis Ionawr 2016.

Bydd trefniadau pontio manwl yn parhau i gael eu datblygu i'w gweithredu rhwng Ysgol Uwchradd John Summers ac ysgolion partner hyd at fis Rhagfyr 2015. Bydd hyn yn caniatáu i fyfyrwyr, rhieni a gofalwyr wneud penderfyniadau â gwybodaeth cyn ystyried opsiynau ar gyfer TGAU yn y gwanwyn 2016.

Mae cytundeb gyda'r ysgolion uwchradd partner y byddant yn gweithio gyda'r Cyngor ac Ysgol Uwchradd John Summers o ran amseru eu dewisiadau opsiwn ar gyfer myfyrwyr i gyd-fynd â'r amserlen ar gyfer penderfyniad y Gweinidog.

Mae'r Cyngor a'r ysgolion uwchradd partner eraill hefyd yn gweithio ar gynlluniau pontio wrth gefn pe na bai'r gweinidog yn llunio penderfyniad erbyn y dyddiad a ragwelwyd.

Mae cynllunio trefniadau pontio yn cynnwys y broses dderbyn a bydd yn cynnwys y consortiwm o ysgolion cynradd sy'n gysylltiedig ag Ysgol Uwchradd John Summers.

Bydd swyddogion ieuenctid hefyd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc a'r rhwydwaith o ysgolion lleol fel rhan o'r broses bontio.

Egwyddorion cyffredinol y cynllun fydd:

- Parhau i weithio gyda staff yn yr ysgol ac mewn ysgolion cyfagos i leihau'r aflonyddwch i fyfyrwyr.
- Adeiladu ar waith darparu'r cwricwlwm ar y cyd ar hyn o bryd ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 gyda'r ysgolion lleol (yn enwedig Ysgol Uwchradd Cei Connah), gan alinio'r cwricwlwm i ddarparu gwydnwch a'r potensial ar gyfer gwell amrywiaeth o opsiynau'r cwricwlwm.
- Cynlluniau pontio unigol a chefnogaeth ar gyfer dysgwyr diamddiffyn a chynlluniau penodol ar gyfer grwpiau sy'n ddiamddiffyn (gan gynnwys cefnogaeth fugeiliol ar draws y cyfnod pontio).
- Darparu opsiynau i'r Cabinet ar gyfer cludiant i fynd i'r afael â phryderon myfyrwyr, rhieni a gofalwyr.

Mae'r cynllun pontio drafft wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

Mater Allweddol 3: Effaith ar y Gymuned

Mynegodd nifer o ymatebwyr y pryderon canlynol:

- Mae'r ysgol yn rhan o'r gymuned
- Byddai cau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar y gymuned a'r siopau a busnesau lleol.

Ymateb i Fater Allweddol 3: Effaith ar y Gymuned

Nodir y pryderon a bydd y Cyngor yn gweithio gydag Ysgol Uwchradd John Summers a'r gymuned i liniaru hyn lle bo modd.

Mater Allweddol 4: Dogfen Ymgynghori

Mynegodd nifer o ymatebwyr y pryderon canlynol:

- Mae'r wybodaeth ar y ddogfen ymgynghori yn gamarweiniol
- Heb ystyried y datblygiad tai posibl ym Mhorth y Gogledd.

Ymateb i Fater Allweddol 4: Dogfen Ymgynghori

Mae Paragraff 1.3 y Cod, yn darparu canllawiau ynglŷn ag Ansawdd a Safonau Addysg. Mae'n nodi:-

“Wrth asesu effaith y cynigion ar ansawdd a safonau addysg a sut y darperir y cwricwlwm, dylai'r cyrff perthnasol ystyried unrhyw dystiolaeth berthnasol gan Estyn, dylid cyfeirio at yr Adroddiadau Estyn diweddaraf neu dystiolaeth arall sy'n deillio o fonitro perfformiad ac ystyried unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael yn gyffredinol ar effeithiolrwydd yr ysgol.”

Mae'r cod hefyd yn nodi bod yn rhaid i'r cynigydd ystyried y materion hyn yn yr ysgol sy'n destun i'r cynnig neu unrhyw sefydliadau addysgol eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio. Dylid talu sylw penodol i'r grwpiau diamddiffyn gan gynnwys plant gydag AAA.

Yn y cyd-destun hwn mae'r Awdurdod wedi defnyddio ffynonellau gwybodaeth perthnasol yn briodol, sef:-

- Arolwg diweddaraf Estyn ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers a'r ysgolion uwchradd eraill yn yr ardal y mae'r cynnig yn debygol o gael effaith arnynt.
- Gwybodaeth ddiweddaraf y Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers a'r ysgolion uwchradd eraill yn yr ardal y mae'r cynnig yn debygol o gael effaith arnynt.
- Yr wybodaeth ddiweddaraf o System Categoriaddio Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers ac ar gyfer ysgolion uwchradd eraill yn yr ardal y mae'r cynnig yn debygol o gael effaith arnynt.

Arolygwyd yr ysgol ym mis Ionawr 2011, felly roedd yn briodol defnyddio'r data diweddaraf gan y Gwasanaeth Gwella Rhanbarthol (GwE) ac o system Categoriaddio Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r data'n annibynnol o'r Cyngor. Mae'r un data wedi'i ddefnyddio mewn ymgynghoriad arall ynglŷn â newid trefniadaeth ysgol sy'n cael ei gynnal ar yr un pryd heb unrhyw sylw negyddol. Yn ogystal â hyn, derbyniwyd sylwadau cadarnhaol ynglŷn ag eglurder y ddogfen a'r data a nodwyd ynddi. Mae Estyn hefyd wedi adrodd yn gadarnhaol yn eu hymateb ar y defnydd o'r data.

O ran y defnydd o ddata Categori Cenedlaethol, nid yw'r Awdurdod wedi dewis gwybodaeth i ddangos 'rhagfarn fwriadol neu i gamarwain'. Mae wedi defnyddio'r data sydd ar gael ar dudalen gynhoi gwefan Llywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth wedi'i dylunio i ddarparu gwybodaeth i rieni wrth ddewis ysgol leol. Ni fyddai'n briodol cymharu Ysgol Uwchradd John Summers gydag ysgolion eraill yn yr un carfan ar y System Categori Cenedlaethol wrth gymhwyso'r cod gan y gallant fod mewn ardaloedd daearyddol eraill ac nid yw'r cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol. Wrth gymhwyso cod trefniadaeth ysgolion mae'n briodol cymharu Ysgol Uwchradd John Summers yn uniongyrchol ag ysgolion lleol eraill a allai dderbyn disgyblion Ysgol Uwchradd John Summers pe bai'r ysgol yn cau.

Dros y cyfnod ers yr arolwg symudodd yr ysgol o Fand 2 o ran perfformiad yn 2012 i Fand 3 yn 2013 i'r sefyllfa gyfredol o fod yng Nghategori 4. Safbwynt yr Awdurdod yw bod y data "cyfredol" hwn yn briodol i'w ddefnyddio gan ei fod yn darparu ciplun i'r ymgynghoreion o sut y mae'r ysgol yn perfformio. Mae'n briodol cymharu ag ysgolion lleol eraill gan fod y cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Ystyriwyd canlyniadau ar gyfer dysgwyr Prydau Ysgol Am Ddim yn fanylach gan fod gan Ysgol Uwchradd John Summers ganran uwch o ddysgwyr Prydau Ysgol am Ddim na'r ysgolion eraill yn Sir y Fflint. Gwnaed cymariaethau gofalus felly yn erbyn ysgolion eraill y mae'r cynnig yn effeithio arnynt.

Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yng nghyd-destun y cod ac i roi sicrwydd i'r ymgynghoreion pe bai Ysgol Uwchradd John Summers yn cau byddai'r safonau addysg a'r cyfleoedd ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion uwchradd lleol eraill o leiaf yn gyfartal neu'n well na'r hyn sydd yn Ysgol Uwchradd John Summers. Mae adroddiad Estyn ar y cynnig yn berthnasol yn y cyd-destun hwn hefyd.

Mae myrdd o ddata y gellir ei gyflwyno a fyddai ac a allai gyflwyno canlyniadau perfformiad yr ysgol yn gadarnhaol ac yn negyddol. Byddai'r Awdurdod Lleol a'r llywodraethwyr a'r ysgol yn cydnabod bod ymarfer a pherfformiad da yn yr ysgol. Fodd bynnag mae agweddau o systemau a pherfformiad y dylai ac y bydd y llywodraethwyr a'r ysgol yn ceisio eu gwella.

Cydnabyddir bod yr ysgol wedi cael arolwg da gan Estyn, fodd bynnag roedd yr arolwg yn 2011. Ers yr arolwg mae dystiolaeth annibynnol gan y System Categori Cenedlaethol a gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol (GwE) sy'n achosi pryder ar gyfer yr Awdurdod, ac a ddylai achosi pryder i'r llywodraethwyr a'r ysgol.

Mae'r system categori cenedlaethol yn darparu dull clir a syml o ddeall pa mor dda yw perfformiad ysgol ar gyfer ei holl ddisgyblion, pa mor effeithiol y caiff ei harwain a'i rheoli, ansawdd addysgu a dysgu a lefel y gefnogaeth a'r her sydd ei angen i wneud yn well. Mae'r system yn seiliedig ar broses tri cham:

1. Grŵp Safonau: Defnyddir amrywiaeth o wybodaeth i wneud penderfyniad ynglŷn â'r safonau, gan arwain at grŵp safonau.
2. Capasiti i wella: Gwerthusiad o gapasiti'r ysgol i wella ymhellach; ystyried y dystiolaeth ynglŷn â safonau ac ansawdd yr arweinyddiaeth, addysgu a dysgu, gan arwain at gapasiti i wella.
3. Categori cefnogaeth: Uno'r feirniadaeth ar y grŵp safonau a chapasiti i wella i benderfynu ar gategori cefnogaeth yr ysgol, gyda lliwiau cyfatebol naill ai'n wyrdd, melyn, oren neu goch.

Defnyddiodd y Cyngor y fformiwla ganlynol i ffurfio ffigyrau posibl ar gyfer cynnyrch tai :- Roedd y fformiwla'n deillio o ymchwilio gwaith sawl awdurdod.

Gan gymhwyso'r fformiwla cynnyrch tai, os yw'r safleoedd datblygu tai o fewn Porth y Gogledd yn cael eu datblygu i'r capasiti mwyaf o 1325 o dai (ffynhonnell: Caniatâd cynllunio amlinellol) ac, wrth gymhwyso'r fformiwla cynnyrch tai newydd (0.17 fesul cartref ar gyfer ysgol uwchradd heb ôl 16) cyfanswm y plant oedran ysgol uwchradd a 'gynhyrchir' fyddai'n gymwys i'w derbyn i Ysgol Uwchradd John Summers fyddai 231. Os tybir y byddai'r garfan lawn o blant yn cael eu derbyn i Ysgol Uwchradd John Summers dim ond 535 o ddisgyblion fyddai ym mhoblogaeth yr ysgol (gan ddefnyddio nifer amcangyfrifedig 2016/17 305+231 o'r uchafswm cynnyrch tai) pan gyfunir y niferoedd hyn.

Mater Allweddol 5: Effaith ar Staff Addysgu

Mynegodd nifer o ymatebwyr y pryderon canlynol:

- Pryder ynglŷn â beth fydd yn digwydd i'r staff addysgu

Ymateb i Fater Allweddol 5: Effaith ar Staff Addysgu

Pe bai'r cynigion cyfredol yn cael eu gweithredu, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r aelodau o staff presennol yn Ysgol Uwchradd John Summers, gan gynnwys staff addysgu a staff cefnogi, pe baent yn dymuno canfod cyfleoedd adleoli.

Bydd corff llywodraethu'r ysgol yn cymhwyso ei bolisi newid sefydliadol a cholli swydd pan fo'r angen a bydd cefnogaeth briodol yn cael ei ddarparu i staff addysgu a chefnogi yn ystod y cyfnod hwn gan Dîm Arweinyddiaeth yr Ysgol a'r Cyngor.

Efallai y bydd staff yr effeithir arnynt gan y cynnig yn cael cyfle i gael eu cyflogi yn y rhwydwaith Ysgolion Uwchradd lleol oherwydd bod y disgyblion yn symud i ysgolion uwchradd eraill.

Mater Allweddol 6: Strwythur Ystafell Ddosbarth

Mynegodd nifer o ymatebwyr y pryderon canlynol:

- Pryder a oes digon o le i dderbyn y disgyblion yn yr ysgolion cyfagos eraill
- Bydd y dosbarthiadau'n fwy

Ymateb i Fater Allweddol 6: Strwythur Ystafell Ddosbarth

Bydd sicrhau fod gan yr Awdurdod y nifer cywir o ysgolion yn y manau cywir a lleihau'r llefydd gwag yn lliniaru yn erbyn cymarebau uwch o ddisgyblion nag athrawon o ganlyniad i gyllidebau gostyngol yn flynyddol oherwydd caledi. Bydd gwneud dim yn arwain at leihau dyraniadau ariannol i ysgolion a chynyddu cymarebau disgyblion athrawon yn holl ysgolion Sir y Fflint.

Mae materion capasiti mewn ysgolion lleol yn cael eu trin yn yr Ymateb i Lywodraethwyr ynglŷn â gordanysgrifio Ysgol Uwchradd Penarlâg a'r Ymateb i Lywodraethwyr ynglŷn â Materion Addasrwydd.

Mater Allweddol 7: Gwisgoedd Ysgol

Mynegodd nifer o ymatebwyr y pryderon canlynol:

- Costau ychwanegol o brynu gwisgoedd ysgol newydd

Ymateb i Fater Allweddol 7: Gwisgoedd Ysgol

Mae Grantiau Gwisg Ysgol ar gael ar gyfer rhai disgyblion ym Mlwyddyn 7. Os yw plentyn yn mynychu ysgol uwchradd, ysgol arbennig, canolfan adnoddau anghenion arbennig neu uned atgyfeirio disgyblion yn Sir y Fflint, efallai y bydd disgyblion yn gymwys i dderbyn grant tuag at gost eu gwisg ysgol. Mae'n berthnasol i ysgolion / unedau lle bo gwisg ysgol yn ofynnol.

Gall rhieni a gofalwyr hawlio grant gwisg ysgol os yw eu plentyn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac yn byw yn Sir y Fflint.

Gellir cyflwyno cais ar ei gyfer ar ddechrau'r flwyddyn ysgol. Y grant ar hyn o bryd yw £105 ar gyfer pob plentyn cymwys a chaiff ei dalu'n uniongyrchol i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu fel arfer.

Mae cyfnewidfa gwisg ysgol ar gael ar gyfer disgyblion Sir y Fflint. Mae'r Gyfnewidfa Gwisg Ysgol yn ceisio annog pobl Sir y Fflint i ailgylchu a rhoi eitemau o wisg ysgol nad oes eu hangen mwyach neu sydd heb eu defnyddio yn hytrach na'u rhoi yn y bin. Mae'r holl wisgoedd ysgol a roddwyd ar gael i'w gwerthu yn siopau Hosbis Tŷ'r Eos ar draws Sir y Fflint ar gost sylweddol is na phrisiau'r stryd fawr.

Mae'r Awdurdod wedi sylwi bod gan Ysgol Uwchradd John Summers a'r ysgol uwchradd agosaf Ysgol Uwchradd Cei Connah wisg ysgol o'r un lliw.

Mae'n eithaf arferol y bydd y mwyafrif o'r disgyblion angen gwisgoedd newydd wrth ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd, ac felly efallai y bydd angen prynu gwisg newydd waeth pa ysgol y mae'r disgybl yn ei mynychu.

Ymatebion yn Cefnogi'r Cynigion

Roedd y dadansoddiad o'r ohebiaeth a dderbyniwyd yn amlygu nifer fechan o ymatebion yn cefnogi'r cynigion, mae crynodeb o'r themâu isod:

Sylwadau ar y Cynnig i newid ystod oedran Ysgol Uwchradd John Summers o 11-18 i 11-16 erbyn 31 Awst 2016.

- Trawsnewid a gwella cyfleoedd dysgu ar gyfer disgyblion yn Sir y Fflint
- Argaeledd ystod ehangach o bynciau lefel A a chyrsgau galwedigaethol
- Lleihau cludiant rhwng nifer o ysgolion uwchradd

- Yn debyg i ysgolion uwchradd eraill sydd eisoes wedi newid eu hystod oedran;
a
- Byddai newid yn darparu mynediad i gyfleusterau gwell.

Roedd y sylwadau ar y cynnig i gau Ysgol Uwchradd John Summers erbyn 31 Awst 2017 yn cynnwys y byddai newid:

- Yn lleihau llefydd gwag
- Yn gwella canlyniadau addysgol ar gyfer dysgwyr
- Cydnabod nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy

5.0 Ymateb gan Aelodau Cynulliad a'r Aelodau Seneddol

Derbyniwyd cyfanswm o ddau ymateb yn ystod y cyfnod ymgynghori gan Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol

Mae'r tabl isod yn dangos y dulliau a ddefnyddiwyd gan Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol i ymateb i'r ymgynghoriad:

Manylion Ymatebion gan Aelodau Cynulliad a'r Aelodau Seneddol

Rhif	Math o Ymateb	Ymateb gan Aelodau Cynulliad a'r Aelodau Seneddol	
		ACau	ASau
1	Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	0	0
2	Llythyrau a negeseuon e-bost	1	1
Cyfansymiau		1	1

Gellir canfod y llythyrau gan Aelodau Cynulliad a'r Aelodau Seneddol a'r ymatebion gan yr awdurdod yn nogfennau'r Adroddiad Ymgynghori sydd ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint.

6.0 Ymateb gan Estyn

Ymateb gan Estyn i'r cynnig gan Gyngor Sir y Fflint i newid ystod oedran Ysgol Uwchradd John Summers o 11-18 i 11-16 (o'r 31 Awst 2016) ac i gau Ysgol Uwchradd John Summers 11-16 (o'r 21 Awst 2017).

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan Arolygwyr Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru.

Dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i God cysylltiedig, mae'n ofynnol i'r cynigwyr anfon y dogfennau ymgynghori at Estyn.

Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff sy'n gorfod gweithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly fel corff sy'n ymgynghoreion, bydd Estyn

yn darparu eu barn yn unig ar fanteision cyffredinol y cynigion trefniadaeth ysgolion.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi cynhyrchu'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd.

Cyflwyniad

Mae'r cynnig ymgynghori gan Gyngor Sir y Fflint. Y cynnig yw i:

- Roi'r gorau i ddarpariaeth 16-18 yn Ysgol Uwchradd John Summers erbyn 31 Awst 2016
- Argymell cau Ysgol Uwchradd John Summers erbyn 31 Awst 2017.

Crynodeb / Casgliad

Mae gan y Cyngor Sir ddyletswydd gyfreithiol i ystyried nifer a'r mathau o ysgolion sydd ganddynt yn Sir y Fflint ac mae'n rhaid iddynt sicrhau eu bod yn diwallu gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

Barn Estyn yw y bydd effaith y cynnig yn cynnal y safonau addysg cyfredol yn yr ardal o leiaf. Bydd datblygu canolfan ddysgu ôl 16 yn cynnig amrywiaeth ehangach o gyrsgiau academaidd a galwedigaethol ar gyfer dysgwyr ac ni fydd cau Ysgol Uwchradd John Summers yn achosi anfantais ddiangen i unrhyw ddisgyblion presennol.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigydd wedi darparu rhesymeg eglur ar gyfer y cynnig, sy'n unol â rhaglen strategol y Cyngor i ddatblygu canolfan ôl 16 yng Ngholeg Cambria ac i ymdrin â phryderon ynglŷn â niferoedd disgyblion disgwylidig yn y dyfodol i gefnogi a chynnal cyfleoedd cwricwlwm digonol ar gyfer darpariaeth uwchradd yn Ysgol Uwchradd John Summers.

Mae'r cynigydd yn diffinio'r manteision disgwylidig o gau'r ddarpariaeth ôl 16 yn Ysgol Uwchradd John Summers a throsglwyddo i'r ganolfan ôl 16 yng Ngholeg Cambria. Mae'r rhain yn ymddangos yn rhesymol, ac yn cynnwys mwy o hyblygrwydd o ran dewis cwricwlwm a galluogi mynediad i amrywiaeth ychwanegol o gyrsgiau a gynigir yn y coleg. Fodd bynnag, er bod y cynigydd yn sicrhau y bydd hyn yn cynorthwyo i ddarparu gwell canlyniadau addysgol, nid yw'n glir sut y bydd hyn yn digwydd.

Mae'r cynnig yn drylwyr yn ei ddefnydd o ddata mewn perthynas â niferoedd disgyblion yn y gorffennol, y presennol ac yn y dyfodol. Mae'n dangos yn glir bod y cynnig i gau Ysgol Uwchradd John Summers o fis Awst 2017 o ganlyniad i niferoedd gostyngol yn yr ysgol a'i anallu i gynnal ehangder y cwricwlwm sy'n ofynnol gan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Mae'r cynigydd wedi llawn ystyried yr effaith ar niferoedd yn yr ysgol o ganlyniad i ddatblygiadau tai posibl yn yr ardal, ac mae'n nodi nad yw cynaliadwyedd Ysgol Uwchradd John Summers o ganlyniad i'r niferoedd disgyblion disgwylidig yn diwallu gofynion polisi moderneiddio ysgolion y cyngor ac nad yw'n diwallu targedau gweinidogol a'r cyngor ar gyfer Sir y Fflint.

Mae'r cynigydd wedi cymharu manteision y cynnig gyda'r sefyllfa bresennol ac wedi ystyried yr holl opsiynau rhesymol eraill yn deg. Maent wedi arddangos y manteision a'r anfanteision ar gyfer pob opsiwn a'r rhesymau dros yr opsiwn a ffeirir ganddynt.

Mae'r cynnig yn nodi goblygiadau ar gyfer aelodau o staff sy'n darparu darpariaeth ôl 16 yn Ysgol Uwchradd John Summers ar hyn o bryd. I ddechrau, bydd y staff hyn yn gymwys i wneud cais am swyddi yn y ganolfan ôl 16 yng Ngholeg Cambria a gall staff elwa o gyfle gwell i arbenigo a datblygu eu gyrfa, os yn llwyddiannus. Fodd bynnag, bydd y cyfle hwn ar agor i'r holl staff o Gonsortiwim Glannau Dyfrdwy yn y cam cyntaf, gyda recriwtio agored i ddilyn.

Os bydd dadleoli staff o ganlyniad i'r cynnig, mae'r cynigydd yn nodi'n rhesymol y bydd y cyngor yn rheoli'r newidiadau i lefelau staffio o fewn y polisiau a'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. Mae'r cynigydd yn honni oherwydd y bydd disgyblion yn symud i ysgolion uwchradd eraill, efallai y gall staff sy'n cael eu dadleoli o ganlyniad i'r cynnig gael cyfle i dderbyn cyflogaeth yn y rhwydwaith uwchradd lleol.

Agweddau addysgol y cynnig

Mae'r cynigydd wedi ystyried yr holl ddata sydd ar gael ar gyfer ysgolion yn yr ardal, gan gynnwys y beirniadaethau a wnaed yn adroddiadau arolwg diweddaraf Estyn. Mae'r data yn nodi er fod gan Ysgol Uwchradd John Summers y gost uchaf fesul disgybl a'r cymhareb isaf o ran disgyblion-athrawon, mae ganddynt y gyfradd presenoldeb isaf a'r cyfraddau llwyddiant isaf o'u cymharu â'r ysgolion cyfagos. Mae'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol wedi nodi'r ysgol fel oren, ac nid yw perfformiad yr ysgol yn gwella'n ddigon cyflym ac mae angen ymyrraeth a chefnogaeth sy'n gyfyngedig o ran amser.

Mae'r cynigydd yn honni'n rhesymol y bydd y ddarpariaeth amgen yn cynnal safon yr addysg ar gyfer disgyblion Ysgol Uwchradd John Summers o leiaf.

Mae'r cynigydd yn nodi bod yr asesiadau o effaith mewn perthynas â dysgwyr a'r gymuned heb eu cwblhau hyd yn hyn. Fodd bynnag, safbwynt y Cyngor yw na fydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar ddysgwyr, darpariaeth Cymunedau yn Gyntaf na defnydd y gymuned o gyfleusterau'r ysgol. Mae Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg wedi'u cyflawni.

Mae'r cynigydd wedi ystyried effaith y cynnig ar drefniadau teithio dysgwyr yn briodol. Mae'n bwriadu cefnogi cludiant o'r cartref i'r ysgol yn unol â pholisi cludiant o'r cartref i'r ysgol y Cyngor. Mae'r cynigydd yn honni pe bai niferoedd mawr o ddisgyblion yn methu â chael mynediad i gludiant o'r cartref i'r ysgol o ardaloedd penodol i'r ysgol briodol agosaf, yna bydd y Cyngor yn gweithio gyda darparwyr cludiant lleol i geisio sefydlu darpariaeth gwasanaeth ychwanegol. Mae'r cynigydd yn cydnabod y bydd amser teithio i'r ysgol yn cynyddu ar gyfer cyfran fawr o'r disgyblion. Fodd bynnag, mae'r holl amseroedd teithio o fewn canllawiau mesur cludiant y Cyngor.

Mae'r cynigydd wedi amlinellu'r trefniadau pontio'n dda i sicrhau'r aflonyddwch lleiaf posibl i ddysgwyr. Bydd y ganolfan ôl 16 yn darparu cyfleusterau dysgu

arbenigol ynghyd â dosbarthiadau dysgu cyffredinol ar gyfer 700 o ddysgwyr mewn lleoliad canolog. Bydd derbyniadau cychwynnol yn cael eu diogelu ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o Flwyddyn 12 mewn ysgolion partner, gan gynnwys disgyblion o Ysgol Uwchradd John Summers. Bydd yr ysgol gyfan yn cau ymhen blwyddyn ar ôl trosglwyddo i'r ganolfan ôl 16 newydd yng Ngholeg Cambria a bydd hyn yn amddiffyn dysgwyr sydd yng nghanol cylched arholiadau rhag newid.

Mae'r cynnig yn cynnwys gwybodaeth briodol mewn perthynas â sicrhau darpariaeth ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai gyda datganiadau ar gyfer anghenion arbennig ychwanegol. Barn Estyn yw bod y cynnig yn annhebygol o gael effaith andwyol ar ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn.

Ymateb y Cyngor i llythyr Llywodraethwyr John Summers 14 Gorffennaf 2015

Yn y llythyr gan y llywodraethwyr dyddiedig 14 Gorffennaf 2015, mae honiad bod y broses wedi'i chynnal yn amhriodol. Nid yw'r llythyr yn darparu unrhyw resymeg na thystiolaeth i gefnogi'r honiad hwn. Mae'r Awdurdod wedi dilyn y broses a osodwyd yn y Cod gan mai dyma'r gofyniad cyfreithiol. Yna cafwyd cwyn nad oedd y llythyr wedi'i rannu ar ffurf drafft gyda'r Corff Llywodraethu llawn fel y cytunwyd yn eu cyfarfod.

Gwneir honiad pellach fod cwestiynau wedi'u hateb yn anfodlon, yn annigonol neu wedi'u hateb mewn modd sy'n achosi pryder. Unwaith eto nid oes tystiolaeth o hyn ac mae'n ddi-sail. Mae'r Awdurdod wedi ymateb i'r holl ohebiaeth yn unol â'r gofyniad dan god trefniadaeth ysgolion a'i siarter cwsmeriaid.

Er bod siom oherwydd y canlyniad yn ddealladwy, mae'r honiadau o "wyro o'r adeiladu cyfalaf" yn syndod yn y cam hwn, o ystyried bod y Cyngor wedi cynnal proses Oedi ac Adolygu gadarn gan gynnwys ymgysylltu'n gynhwysfawr gyda'r Corff Llywodraethu yn gynharach.

Dechreuodd ddatblygiad achos busnes Campws Queensferry gyda'r Rhaglen Amlinellu Strategol gwreiddiol. Y cysyniad gwreiddiol oedd cau Ysgol Uwchradd John Summers oherwydd y galw isel. Cafodd hyn ei atal yn yr Achos Amlinellol Strategol a cham yr Achos Busnes Amlinellol, trwy'r penderfyniad i ddiwallu'r galw newydd a ddisgwylir o ddatblygiadau tai ym Mhorth y Gogledd. Yn y Cam Achos Busnes Llawn, mae'n rhaid i'r Awdurdod "lunio" dyluniadau, cadarnhau costau, cymeradwyo Cynigion Statudol a data cadarn i gefnogi'r prosiect.

Cafwyd oedi ac adolygu ynghylch prosiect cyfalaf Campws Queensferry, oherwydd pryder o amgylch gwydnwch y data critigol a oedd ei angen i gefnogi cyflwyniad yr achos busnes cyfalaf i Lywodraeth Cymru am arian drwy raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Lluniodd y Cyngor ymrwymiad polisi i ddatblygu achos busnes ar gyfer ysgol 3-16 a champws newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers. Mae'n rhaid i'r achos busnes ddiwallu nifer o brofion os yw am fynd yn ei flaen, ac roedd y data diweddaraf yn achosi cwestiynau ynglŷn â hyfywedd y prosiect.

Y sylfaen ar gyfer yr achos gwreiddiol ar gyfer buddsoddiad cyfalaf oedd erbyn 2019 byddai tri dosbarth mynediad gwahanol ac, gyda'r datblygiad arfaethedig ym Mhorth y Gogledd, byddai'n cynyddu poblogaeth yr ysgol i bedwar dosbarth mynediad gyda thua 600 o lefydd.

Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng swyddogion a Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Queensferry ac Ysgol Uwchradd John Summers. Ffurfiwyd grŵp cynrychioliadol o Lywodraethwyr hefyd i brofi gwynwch y data ac ystyried a oedd gwybodaeth arall ar gael a all gefnogi cyflwyno achos busnes cyfalaf.

Roedd y llywodraethwyr yn gwbl ymwybodol y cynghorwyd y Cabinet na fyddai modd i'r Cyngor Sir gyfiawnhau cyflwyno achos cyfalaf yn seiliedig ar wybodaeth anghywir neu wybodaeth nad oedd yn gwbl gadarn gan wybod na fyddai'n diwallu meini prawf Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif.

Arweiniodd yr adolygiad at yr argymhelliad canlynol i'r Cabinet:

“Gan nad yw'r dadansoddiad data yn cefnogi parhau ag Achos Busnes Llawn ar gyfer cyllid cyfalaf, argymhellir y Cabinet i:

- (i) beidio â pharhau â'r Achos Busnes Llawn;
- (ii) gynnal cyfnod ymgynghori ffurfiol gyda budd-ddeiliaid allweddol ar gyfer yr ardal ynglŷn â sut i sicrhau addysg o ansawdd uchel sy'n gynaliadwy ac yn wydn yn yr ardal i'w adrodd i'r Cabinet yn y dyfodol. “

Mae'r broses ynglŷn â chyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif a phroses yr achos busnes wedi'u hegluro'n llawn i'r llywodraethwyr ac mae fel a ganlyn:

Mae Llywodraeth Cymru (LIC) wedi mabwysiadu Model Busnes 5 Achos Trysorlys Ei Mawrhydi fel eu templed ar gyfer Awdurdodau Lleol i gyflwyno cais am gyllid cyfalaf i foderneiddio ysgolion trwy eu Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'r broses yn broses esblygol a ffurfiwyd mewn tri cham:

- Achos Amlinellol Strategol – cam cwmpasu
- Achos Busnes Amlinellol – cam cynllunio manwl
- Achos Busnes Llawn – cam terfynol manwl

Y cysyniad ar gyfer y broses yw bod pob cam yn cael ei ystyried yn borth a bod data a'r wybodaeth sy'n berthnasol i'r cam hwnnw o'r broses yn cael eu profi gan yr Awdurdod Lleol a LIC er mwyn profi hyfywedd y prosiect. Ar unrhyw gam gall naill ai LIC neu'r Awdurdod Lleol oedi neu atal y prosiect am ei fod yn anhyfyw neu nad oes modd cyfiawnhau cyllid.

Gan fod y Prosiect ar gam datblygu Achos Busnes Llawn (ar oedi ac adolygu), mae'n rhaid cyflwyno cynigion statudol a chostau gwirioneddol i LIC fel rhan o'r fframwaith.

Honnir yng ngohebiaeth y llywodraethwyr y byddai tua £75,000 o gostau addysgu. Mae hyn yn aneglur ac yn anghywir. Nid yw'r cyngor yn ymwybodol o £75,000 o gostau addysgu sy'n gysylltiedig â'r prosiect cyfalaf arfaethedig.

O ran y prosiect cyfalaf arfaethedig ni ddyfarnwyd unrhyw gontract. Fel y cynghorwyd y llywodraethwyr, penododd Cyngor Sir y Fflint gontractwr i ddatblygu cynigion trwy Fframwaith Caffael Gogledd Cymru. O fewn y contract

roedd mecanwaith a oedd yn galluogi pob parti i orffen ar gam penodol cyn cael eu comisiynu'n llawn. Bydd costau adennill ffioedd yn gysylltiedig ag atal y datblygiad. Fodd bynnag, mae'r rhain yn parhau i gael eu hadolygu ac felly nid yw'r wybodaeth hon ym meddiant yr awdurdod ar hyn o bryd, fodd bynnag bydd y ffigwr fasnachol yn is na'r £75,000 a ddyfynnwyd gan y llywodraethwyr.

O ran costau Swyddogion, fel y cynghorwyd y Llywodraethwyr, nid oes costau ychwanegol ar gyfer swyddogion Addysg ac Ieuenctid yn gysylltiedig â phrosiect cyfalaf arfaethedig Ysgol Uwchradd John Summers na newid trefniadaeth ysgolion gan fod y rhain yn ffurfio rhan o waith cytundeb y swyddogion. Mae rheoli llefydd ysgol a newid trefniadaeth ysgol yn ffurfio rhan o swyddogaeth statudol yr Awdurdod Lleol ac mae'r sefyllfa fel hyn ers ddechrau'r 1990au.

Y rhesymeg dros y cynnig i gau Ysgol Uwchradd John Summers oedd adnoddau gostyngol, llefydd gwag ac adeiladau anaddas. Cafodd hyn ei ategu gan y canlyniadau o gam oedi ac adolygu'r prosiect cyfalaf.

7.0 Ymateb y Cyngor i Fersiwn 11 o ymateb y Corff Llywodraethu a dderbyniwyd ar e-bost 6 Gorffennaf 2015.

Cyflwyniad

Mae'r Awdurdod yn adolygu dyfodol Ysgol Uwchradd John Summers yn dilyn penderfyniad y Cabinet ym mis Chwefror 2015 yn unol â'i Bolisi Moderneiddio Ysgol a gyflwynwyd yn 2010 ac a ddiweddarwyd yn 2015.

Y cyd-destun yw bod niferoedd myfyrwyr ôl 16 yn ei gwneud yn amhosibl i lywodraethwyr Ysgol Uwchradd John Summers ddiwallu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Er mwyn diogelu hawl y dysgwyr i gael mynediad i amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel mae'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion cyfredol yn nodi y bydd darpariaeth ôl 16 yn cael ei adolygu mewn unrhyw ysgol uwchradd lle bo nifer y disgyblion o fewn y chweched dosbarth yn is na 150 o ddisgyblion am dair blynedd yn olynol.

Mae'r Polisi Moderneiddio Ysgolion yn nodi y dylai bod isafswm o bedwar dosbarth mynediad i ysgolion uwchradd (120 o fyfyrwyr ar gyfer pob blwyddyn dderbyn) neu 600 o lefydd ar gyfer ystod oedran 11-16. Mae angen niferoedd o'r fath er mwyn i ysgol allu cynnal y cwricwlwm eang sy'n ofynnol dan y Mesur Dysgu a Sgiliau.

Mae pryder ynglŷn â diffyg niferoedd disgyblion cyfredol ac wedi'u rhagamcanu yn y dyfodol i gefnogi darpariaeth uwchradd yn Ysgol Uwchradd John Summers. Caiff hyn ei waethygu gan y gostyngiad disgwylidiedig mewn cyfraddau geni.

Mae materion cyllidebol ysgol yn cael eu cymhlethu gan niferoedd gostyngol disgyblion, ac mae hyn yn sail i bryder yr Awdurdod am yr ysgol yn gallu cynnal digon o gyfleoedd cwricwlwm i ddysgwyr.

Mae isadeiledd yr ysgol yn heneiddio ac yn anghynladwy. Mae nifer gostyngol y disgyblion yn golygu fod gan Ysgol Uwchradd John Summers nifer sylweddol o lefydd gwag (mwy na 25%) sy'n arwain at adolygiad o ysgol fel y nodwyd yn Strategaeth Moderneiddio Ysgol yr Awdurdod.

Roedd cysyniad gan y llywodraethwyr bod ansicrwydd wedi arwain at ostyngiad yn y niferoedd cyhoeddus yn yr ysgol. Byddai'r Awdurdod yn cytuno y gall cynigion aildrefnu ysgolion achosi rhywfaint o ansicrwydd a phryder o fewn cymuned yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth yn John Summers yn cefnogi achosiaeth syml. Er enghraifft, yn 2014 pan oedd yr Awdurdod yn cynllunio ysgol newydd ar y campws, gostyngodd y derbyniadau i Ysgol Uwchradd John Summers i 50 (llai na 2 ddsbarth mynediad). Mae cyfraddau trosglwyddo ar gyfer John Summers o ysgolion cynradd yn ystod y 6 mlynedd diwethaf yn cadarnhau fod gan yr ysgol y cyfraddau trosglwyddo isaf o'u cymharu ag ysgolion uwchradd lleol eraill.

Mae'r Awdurdod yn defnyddio cyfres o ddata a gymerir yn uniongyrchol o ffurflenni ystadegol yr ysgol, Estyn a Llywodraeth Cymru i lunio'r Ddogfen Ymgynghori.

Defnyddiwyd data penodol ar gyfer niferoedd disgyblion presennol ac yn y dyfodol a'r cynnyrch posibl o ddatblygiadau tai yn yr ardal fel rhan o'r oedi ac adolygu ynglŷn â'r achos busnes cyfalaf. Darparwyd cyfres ddata a methodoleg a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod i'r llywodraethwyr er mwyn iddynt allu herio. Cynhaliwyd cyfres o ddeg o gyfarfodydd gyda'r corff llywodraethu llawn a grŵp cynrychioladol o lywodraethwyr yn ystod y cyfnod oedi ac adolygu. Ar hyn o bryd nid oedd y llywodraethwyr yn gallu darparu data priodol i gefnogi parhad yr achos busnes cyfalaf. Nid oes unrhyw dystiolaeth newydd ynglŷn â'r data ar niferoedd disgyblion a ragwelir a'r datblygiadau tai ym Mhorth y Gogledd ers i'r Awdurdod gynnal ymarfer oedi ac adolygu ar y rhaglen adeiladu cyfalaf arfaethedig yn ystod yr hydref 2014.

Nid oes unrhyw dystiolaeth newydd a allai arwain at adolygiad pellach o'r wybodaeth hon neu dystiolaeth pellach i ddarparu sicrwydd y gallai'r llywodraethwyr a'r ysgol wynebu'r heriau a amlinellwyd fel gostyngiad yn nifer y disgyblion a gostyngiadau cyllidebol. O ystyried y cyd-destun hwn mae'r Awdurdod yn pryderu na fydd modd i'r llywodraethwyr gynnal ystod briodol o'r cwricwlwm wrth i galedi waethygu.

Ymateb i honiad y Llywodraethwyr ynglŷn â thuedd bwriadol

Cynhaliodd yr Awdurdod Lleol gyfres o gyfarfodydd gyda'r Pennaeth, Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r llywodraethwyr eu hunain i egluro y byddai'r ddogfen ymgynghori a'r broses yn cael eu llunio gan ddefnyddio'r canllawiau statudol fel yr amlinellwyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Mae Paragraff 1.3 y Cod, yn darparu canllawiau ynglŷn ag Ansawdd a Safonau Addysg. Mae'n nodi:-

“Wrth asesu effaith y cynigion ar ansawdd a safonau addysg a sut y darperir y cwricwlwm, dylai'r cyrff perthnasol ystyried unrhyw dystiolaeth berthnasol gan Estyn, dylid cyfeirio at yr Adroddiadau Estyn diweddaraf neu dystiolaeth arall sy'n deillio o fonitro perfformiad ac ystyried unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael yn gyffredinol ar effeithiolrwydd yr ysgol.”

Mae'r cod hefyd yn nodi bod yn rhaid i'r cynigydd ystyried y materion hyn yn yr ysgol sy'n destun i'r cynnig neu unrhyw sefydliadau addysgol eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio. Dylid talu sylw penodol i'r grwpiau diamddiffyn gan gynnwys plant gydag AAA.

Yn y cyd-destun hwn mae'r Awdurdod wedi defnyddio ffynonellau gwybodaeth perthnasol yn briodol, sef:-

- Arolwg diweddaraf Estyn ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers a'r ysgolion uwchradd eraill yn yr ardal y mae'r cynnig yn debygol o gael effaith arnynt.
- Gwybodaeth ddiweddaraf y Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers a'r ysgolion uwchradd eraill yn yr ardal y mae'r cynnig yn debygol o gael effaith arnynt.
- Yr wybodaeth ddiweddaraf o System Categori Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers ac ar gyfer ysgolion uwchradd eraill yn yr ardal y mae'r cynnig yn debygol o gael effaith arnynt.

Arolygwyd yr ysgol ym mis Ionawr 2011, felly roedd yn briodol defnyddio'r data diweddaraf gan y Gwasanaeth Gwella Rhanbarthol (GwE) ac o system Categori Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r data'n annibynnol o'r Cyngor. Mae'r un data wedi'i ddefnyddio mewn ymgynghoriad arall ynglŷn â newid trefniadaeth ysgol sy'n cael ei gynnal ar yr un pryd heb unrhyw sylw negyddol. Yn ogystal â hyn, derbyniwyd sylwadau cadarnhaol ynglŷn ag eglurder y ddogfen a'r data a nodwyd ynddi. Mae Estyn hefyd wedi adrodd yn gadarnhaol yn eu hymateb ar y defnydd o'r data.

O ran y defnydd o ddata Categori Cenedlaethol, nid yw'r Awdurdod wedi dewis data penodol na dewis gwybodaeth i ddangos 'rhagfarn bwriadol'. Mae wedi defnyddio'r data sydd ar gael ar dudalen gynhoi gwefan Llywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth wedi'i dylunio i ddarparu gwybodaeth i rieni wrth ddewis ysgol leol. Ni fyddai'n briodol cymharu Ysgol Uwchradd John Summers gydag ysgolion eraill yn yr un garfan ar y System Categori Cenedlaethol wrth gymhwyso'r cod gan y gallant fod mewn ardaloedd daearyddol eraill ac nid yw'r cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol. Wrth gymhwyso cod trefniadau ysgolion mae'n briodol cymharu Ysgol Uwchradd John Summers yn uniongyrchol ag ysgolion lleol eraill a allai dderbyn disgyblion Ysgol Uwchradd John Summers pe bai'r ysgol yn cau.

Dros y cyfnod ers yr arolwg symudodd yr ysgol o Fand 2 o ran perfformiad yn 2012 i Fand 3 yn 2013 i'r sefyllfa gyfredol o fod yng Nghategori 4. Safbwynt yr Awdurdod yw bod y data "cyfredol" hwn yn briodol i'w ddefnyddio gan ei fod yn darparu ciplun i'r ymgynghoreion o sut y mae'r ysgol yn perfformio. Mae'n briodol cymharu ag ysgolion lleol eraill gan fod y cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Ystyriwyd canlyniadau ar gyfer dysgwyr Prydau Ysgol Am Ddim yn fanylach gan fod y Llywodraethwyr eu hunain wedi codi'r mater fod ganddynt ganran uwch o ddysgwyr Prydau Ysgol am Ddim na'r ysgolion eraill yn Sir y Fflint. Gwnaed cymariaethau gofalus felly yn erbyn ysgolion eraill y mae'r cynnig yn effeithio arnynt.

Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yng nghyd-destun y cod ac i roi sicrwydd i'r ymgynghoreion pe bai Ysgol Uwchradd John Summers yn cau byddai'r safonau addysg a'r cyfleoedd ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion uwchradd lleol eraill o leiaf yn gyfartal neu'n well na'r hyn sydd yn Ysgol Uwchradd John Summers. Mae adroddiad Estyn ar y cynnig yn berthnasol yn y cyd-destun hwn hefyd.

Ymateb i honiad y Llywodraethwyr ynglŷn ag Achosiaeth

Mae'r broses a'r dull o lunio dogfennau ymgynghori'n cael eu diffinio gan ddefnyddio canllawiau statudol fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon bod y canllawiau yn y cod wedi'u diwallu. Mae adroddiad Estyn ar y cynnig yn berthnasol yn y cyd-destun hwn hefyd.

Ymateb i honiad y Llywodraethwyr ynglŷn â Data

Mae myrdd o ddata y gellir ei gyflwyno a fyddai ac a allai gyflwyno canlyniadau perfformiad yr ysgol yn gadarnhaol ac yn negyddol. Byddai'r Awdurdod Lleol a'r llywodraethwyr yn cydnabod bod ymarfer a pherfformiad da yn yr ysgol. Fodd bynnag mae agweddau o systemau a pherfformiad y dylai ac y bydd y llywodraethwyr yn ceisio eu gwella.

Cydnabyddir bod yr ysgol wedi cael arolwg da gan Estyn, fodd bynnag roedd yr arolwg yn 2011. Ers yr arolwg mae tystiolaeth annibynnol gan y System Categoriiddio Cenedlaethol a gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol (GWE) sy'n achosi pryder ar gyfer yr Awdurdod, ac a ddylai achosi pryder i'r llywodraethwyr a'r ysgol.

Mae'r system categoriiddio cenedlaethol yn darparu dull clir a syml o ddeall pa mor dda yw perfformiad ysgol ar gyfer ei holl ddisgyblion, pa mor effeithiol y caiff ei harwain a'i rheoli, ansawdd addysgu a dysgu a lefel y gefnogaeth a'r her sydd ei angen i wneud yn well. Mae'r system yn seiliedig ar broses tri cham:

1. Grŵp Safonau: Defnyddir amrywiaeth o wybodaeth i wneud penderfyniad ynglŷn â'r safonau, gan arwain at grŵp safonau.
2. Capasiti i wella: Gwerthusiad o gapasiti'r ysgol i wella ymhellach; ystyried y dystiolaeth ynglŷn â safonau ac ansawdd yr arweinyddiaeth, addysgu a dysgu, gan arwain at gapasiti i wella.
3. Categori cefnogaeth: Uno'r feirniadaeth ar y grŵp safonau a chapasiti i wella i benderfynu ar gategori cefnogaeth yr ysgol, gyda lliwiau cyfatebol naill ai'n wyrdd, melyn, oren neu goch.

Ymateb i honiad y Llywodraethwyr ynglŷn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Cod Ymarfer Anghenion Addysg Arbennig (AAA) ar gyfer Cymru (2002) yn amlinellu'r dyletswyddau a roddir ar yr holl ysgolion yng Nghymru mewn perthynas ag adnabod a darparu ymyrraeth ar gyfer dysgwyr gydag AAA. Ategodd Dogfen Ganllaw Cynhwysiant a Chefnogi Disgyblion Llywodraeth Cymru at hyn yn 2006, gan gyflwyno'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), y mae AAA yn is-grŵp ohono. Mae ymarfer yn erbyn y dogfennau hyn yn cael ei fonitro trwy Estyn dan adran Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad (Cwestiwn Allweddol 4 yn flaenorol, a Chwestiwn Allweddol 2 dan Fframwaith newydd Estyn). Mae lles wedi'i gynnwys fel adran ar wahân dan Gwestiwn Allweddol 1 dan y Fframwaith newydd.

Mae'r tabl isod yn dangos y canlyniadau ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers a'r Ysgolion Uwchradd Lleol y mae'r cynnig yn debyg o gael effaith

arnynt ar gyfer Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad, a Lles lle bo ar gael, o'r adroddiad arolwg diweddaraf.

Tabl 1: Canlyniadau Estyn ar gyfer Ysgolion Uwchradd Sir y Fflint yn yr ardal leol			
Cwestiwn Allweddol 1: Lles			
Cwestiwn Allweddol 2: Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad			
Ysgol	Blwyddyn yr Arolwg	Canlyniad	
		CA1	CA2
Ysgol Uwchradd Penarlâg	2009	Da	Da
Ysgol Uwchradd Dewi Sant	2011	Da	Da
Ysgol Uwchradd John Summers	2011	Da	Da
Ysgol Uwchradd Cei Connah	2011	Da	Rhagorol

Mae gwirio allanol trwy Estyn yn nodi ymarfer i gefnogi dysgwyr sydd o leiaf yn Dda ac ar adegau'n Rhagorol.

Mae ymweliadau monitro'r Awdurdod Lleol yn cael eu hailgyflwyno i'r holl ysgolion i gefnogi cysondeb nodi anghenion ar draws Sir y Fflint. Mae'r Cod Ymarfer yn darparu diffiniad cyffredinol o ddysgwyr gydag AAA sy'n agored i lefel o ddehongliad, gan ei gwneud yn anodd cymharu grwpiau o ddysgwyr ar draws ysgolion. Mae'r tabl isod yn dangos y niferoedd cyfredol o ddysgwyr gydag AAA wedi'i nodi yn Ysgolion Uwchradd Sir y Fflint. Lle bo ymweliadau monitro eisoes wedi'u cynnal, mae nifer y dysgwyr a nodwyd ar gyfer Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy wedi gostwng, weithiau'n sylweddol, gydag ysgolion yn nodi dysgwyr gydag ADY gydag anghenion mewn meysydd megis meddygol, synhwyraidd, Saesneg fel Iaith Ychwanegol ac ati yn hytrach nag AAA.

Tabl 2: Nifer y Dysgwyr a adroddwyd ag AAA (CYBLD 2015) yn yr ardal leol				
Ysgol	Dim AAA	Gweithredu gan yr Ysgol	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	Datganiad
Ysgol Uwchradd Penarlâg	997	103	33	16
Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney	420	57	28	3
Ysgol Uwchradd John Summers, Glannau Dyfrdwy	228	75	51	9

Ysgol Uwchradd Cei Connah	625	209	55	12
Cyfanswm	2270	444	167	40

Mae cyllid Awdurdod Lleol wedi'i ddirprwyo i ysgolion uwchradd yn 2011. Ysgogodd hyn yr ysgolion i ailystyried eu darpariaeth ar gyfer AAA a bu ymateb cadarnhaol o ran symud o gymhorthwyr addysgu ar gyfer pob unigolyn i amrywiaeth o ymyraethau. Mae'r rhain yn amrywio o grwpiau neilltuo ar gyfer datblygu amrywiaeth o sgiliau gan gynnwys llythrennedd, rhifedd, iaith a sgiliau cymdeithasol, i aildrefnu grwpiau addysgu a darpariaeth y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3 i ddarparu amgylchedd dysgu sy'n fwy gofalgar, prynu mewnbwn cwsleriaid ychwanegol, rhaglenni unigol, grwpiau cefnogi rhieni ac ati.

O fis Medi 2015, bydd adnoddau ychwanegol ar gael i'r holl ysgolion uwchradd trwy raglen TRAC fydd yn ymestyn y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr sydd mewn perygl o ddatgysylltu trwy gefnogaeth well a pheynnau pontio ac amrywiaeth o gynigion cwricwlaidd i gefnogi rhaglenni sydd wedi'u teilwra i'r unigolyn gyda'r nod o gynnal lleoliadau ysgol a lleihau nifer y dysgwyr sydd angen mynediad i ddarpariaeth a gynigir trwy wasanaethau Addysg Heblaw yn yr Ysgol gan yr Awdurdod Lleol.

Mae Tabl 3 isod yn dangos yr ysgol wreiddiol ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu darpariaeth atgyfeirio disgyblion yr awdurdod lleol dros y tair blynedd diwethaf (data o CYBLD mis Ionawr). Mae'r ffigyrau hyn yn cynnwys darpariaeth hir dymor mewn canolfannau megis y Ganolfan Ddysgu, Bryn Tirion ac YPEC. Darperir data ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers a'r ysgolion cyfagos ar gyfer y defnydd o Tymor Byr, darpariaeth fyrdymor yn y golofn olaf.

Ysgol	Ionawr 2013	Ionawr 2014	Ionawr 2015	Tymor Byr (2010 – 2015)
Ysgol Uwchradd John Summers	6	7	6	22
Ysgol Uwchradd Cei Connah	13	14	11	29
Ysgol Uwchradd Dewi Sant	3	1	3	4
Ysgol Uwchradd Penarlâg	9	10	9	6

Er fod yr Awdurdod Lleol yn cydnabod y gwaith a wneir gan y staff yn Ysgol Uwchradd John Summers i gefnogi dysgwyr gydag ADY, nid oes tystiolaeth a

fyddai'n awgrymu na fyddai'r dysgwyr yn derbyn darpariaeth briodol ac ymyrraeth pe baent yn mynychu ysgolion uwchradd eraill.

Ymateb i honiad y Llywodraethwyr ynglŷn ag adroddiadau Estyn

Roedd adroddiadau Estyn ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers a'r Ysgolion Uwchradd lleol eraill y gallai'r cynigion effeithio arnynt ar gael fel rhan o ddogfennau'r ymgynghoriad.

Ymateb i honiad y Llywodraethwyr ynglŷn â Niferoedd Disgyblion

Adolygwyd yr holl ddata mewn perthynas â nifer y disgyblion yn fanwl gyda'r llywodraethwyr yn ystod y cyfnod o oedi ac adolygu, ac fe gynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng y swyddogion a Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Queensferry ac Ysgol Uwchradd John Summers. Ffurfiwyd grŵp cynrychioliadol o Lywodraethwyr hefyd i brofi gwynwch y data ac ystyried a oedd gwybodaeth arall ar gael a all gefnogi cyflwyno achos busnes cyfalaf.

Gweler Atodiad 2 – Adroddiad y Cabinet dyddiedig 17 Chwefror 2015 a phecyn data

Cyflwynodd y Cyngor y data canlynol i'r grŵp cynrychioliadol o Lywodraethwyr:-

- Ysgol Uwchradd John Summers – Rhagamcan disgyblion (Medi 2014)
- Ysgol Uwchradd John Summers – Cyfraddau Trosglwyddo i Flwyddyn 7 (2012 a 2013).
- Ysgolion Cynradd Sir y Fflint: Ystadegau ALI (Medi 2013)
- Rhagolygon cynnyrch tai Porth y Gogledd
- Data geni – Queensferry, Shotton a Sealand 2007-2019
- Cyfartaledd trosglwyddo i flwyddyn 7 2013/12
- Tueddiadau geni yn ardaloedd SPPA gan ddefnyddio data geni (2005-2012)
- Y fethodoleg sy'n sail i'r wybodaeth

Fel rhan o'r adolygiad darparodd y Grŵp Cynrychioliadol o Lywodraethwyr eu rhagamcanion eu hunain mewn ymateb. Roedd rhagamcanion y Grŵp yn seiliedig ar dybiaeth y byddai'r ysgol yn denu 80% o'r holl ddisgyblion o'u hysgolion cynradd agosaf. Byddai hyn yn golygu bod cyfran uchel o deuluoedd yn dewis llefydd yn Ysgol Uwchradd John Summers yn hytrach na'r dewisiadau presennol a wnaed o fewn yr ardal leol.

Yn ogystal â hyn, gwneir rhagdybiaethau gwahanol dros y cynnyrch o ddisgyblion a geir o'r datblygiad arfaethedig ym Mhorth y Gogledd.

Mae'r ffigyrau a ddarparwyd gan y Grŵp yn amrywio'n sylweddol o ddata'r Cyngor. Mae data'r Cyngor ar gyfraddau trosglwyddo yn seiliedig ar symudiadau gwirioneddol 'amser real' o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd

dros gyfnod o ddwy flynedd ac yn cynhyrchu cyfartaledd o gyfraddau trosglwyddo o 60%.

Ni ellir canfod unrhyw dystiolaeth i gefnogi achos y Grŵp bod cyfraddau trosglwyddo o 80% yn gyraeddadwy yn seiliedig ar ddata hanesyddol. Mae data geni diweddar wedi'i ystyried hefyd; mae hyn yn amlygu tuedd gostyngol yn y cyfraddau geni yn genedlaethol ac yn Sir y Fflint, tuedd fydd yn lleihau'r niferoedd rhagamcanol ymhellach.

Yn ogystal â hyn ni chyflwynodd y llywodraethwyr unrhyw dystiolaeth ar y pryd i awgrymu bod y dull a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i amcangyfrif niferoedd y disgyblion yn anghywir nac yn ddiffygiol.

Mae Gweinidog Cymru hefyd wedi mynegi pryder mewn perthynas â niferoedd mewn ysgolion yn ei ohebiaeth yn cadarnhau'r cynigion statudol dyddiedig 13 Awst 2014, sydd wedi dod i ben bellach, ar 31 Mawrth 2015, gan nad yw'r Cyngor wedi cyflwyno'r Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru fel canlyniad uniongyrchol i wydnwch y data sydd ei angen i gefnogi'r achos busnes cyfalaf.

Mae adroddiad Estyn ar y cynnig yn berthnasol yn y cyd-destun hwn hefyd.

Ymateb i honiad y Llywodraethwyr ynglŷn â Niferoedd Disgyblion

Mae'r Data a ddefnyddiwyd yn y cam oedi ac adolygu wedi'i aildefnyddio i sicrhau cysondeb yr wybodaeth. Fodd bynnag, mae un gwall yn y data a ddefnyddiwyd yn Nhabl 5. Cadarnhawyd hyn i'r llywodraethwyr yn ystod cyfarfod ymgynghori dyddiedig 6 Gorffennaf 2015.

Yr eglurhad yw bod y ffigyrau o'r rhagamcanion blaenorol ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers wedi'u defnyddio mewn camgymeriad. Diweddarwyd y rhagamcanion ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers i hysbysu'r pecyn data oedi ac adolygu; dylai bod yr wybodaeth hon wedi'i defnyddio ac felly byddai'n cyd-fynd â thabl 2 yn y ddogfen ymgynghori.

**Tabl 2- Nifer y disgyblion – rhagamcanion Ysgol Uwchradd John Summers
(Gan dybio y bydd ôl-16 yn cau Medi 2016)**

Ffynhonnell Ddata: Pecyn data Oedi ac Adolygu Hydref 2014

	Gwirioneddol Medi 14	Medi 15	Medi 16	Medi 17	Medi 18	Medi 19
Blwyddyn 7 -11	311	310	305	306	301	327
Blwyddyn 12 – 13	50	43				
Cyfanswm NOR	361	353	305	306	301	327

Tabl 5 wedi'i gywiro – Gwybodaeth amcanol - Trawsnewid ôl 16 – (data 2016)

Enw'r Ysgol	BI 7-11	Blwyd dyn 12-13	Cyfanswm	Nifer	Niferoedd Derbyn	Lleoedd heb eu llenwi	% o leoedd heb eu llenwi
Ysgol Uwchradd John Summers	*305	0	305	597	110	292	48.91
Ysgol Uwchradd Cei Connah	*857	0	857	1164	209	*307	26.37
Ysgol Uwchradd Dewi Sant	*442	0	442	725	131	*283	39.03
Ysgol Uwchradd Penarlâg	999	218	1216	1145	195	-71	-6.20
CYFANSWM	2546	218	2821	3631		868	28.99

Mae cywiriadau wedi'u gwneud yn y meysydd a nodwyd â *

Mae'r wybodaeth yn awr yn adlewyrchu'r wybodaeth gywir a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori atodol wreiddiol. Sylwer: Mae gwybodaeth atodol rhagamcanion Ysgol Uwchradd Dewi Sant ac Ysgol Uwchradd Penarlâg yn seiliedig ar ddata CYBLD Ionawr 2015 yn hytrach na data CYBLD Medi 2014.

Ymateb i honiad y Llywodraethwyr ynglŷn â Chyfraddau Trosglwyddo o Ysgolion Cynradd

Ar y cam ymgynghori, mae'r llywodraethwyr wedi cynhyrchu eu rhagamcanion eu hunain. Mae rhagamcanion newydd y Llywodraethwyr yn awr yn seiliedig ar gyfradd o 70% gyda 10 o ddisgyblion ychwanegol yn dod o ardaloedd eraill, yn hytrach na'r 80% a gyflwynwyd ganddynt yn flaenorol.

Mae data gwirioneddol hanesyddol wedi nodi tueddiad gostyngol hir dymor yn y cyfraddau trosglwyddo o ysgolion cynradd i Ysgol Uwchradd John Summers. Yn hytrach na 10% o gynnydd, mae tystiolaeth wirioneddol yn cadarnhau'r gyfradd drosglwyddo gyfartalog hanesyddol o ysgolion cynradd lleol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf yn 60% i Ysgol Uwchradd John Summers.

Cymharu Rhagamcanion Disgyblion – Ysgol Uwchradd John Summers

Ystadegau a baratowyd gan Lywodraethwyr Ysgol Uwchradd John Summers:-

	Gwirioneddol Medi 2014	2015	2016	2017	2018	2019
Blwyddyn 7 -11	311	324	340	345	362	400

Gan ddefnyddio methodoleg y llywodraethwyr, gan dybio'r ysgolion agosaf (Ysgol Gynradd Queensferry, Sealand, Shotton Tŷ Ffynnon, Shotton a St Ethelwolds) a defnyddio'r niferoedd gwirioneddol o'r grwpiau blwyddyn priodol a chymhwyso methodoleg cyfradd trosglwyddo'r llywodraethwyr o 70%, mae'r awdurdod yn cyfrifo'r niferoedd canlynol:

	Gwirioneddol Medi 2014	2015 (yn cynnwys nifer derbyn cyfredol o 72)	2016	2017	2018	2019
Blwyddyn 7-11 (yn seiliedig ar gyfradd drosglwyddo o 70%)	311	317	313	308	298	322
Blwyddyn 7-11 (yn seiliedig ar gyfradd drosglwyddo o 70% + 10 disgybl o ardaloedd eraill)	311	327	323	318	308	332

Mae'n ymddangos efallai bod y llywodraethwyr wedi cynnwys ysgolion megis Sandycrofts ac Ysgol Gynradd VA St Ethelwolds yn eu tybiaethau sydd wedi dangos ffafriaeth ar gyfer ysgolion eraill yn y gorffennol. Ym marn y Cyngor mae hyn yn afrealistig ac yn darparu ffigyrau uwch i'r llywodraethwyr o ran eu rhagamcanion sydd heb eu gwireddu yn y gorffennol ac ni fyddent yn cael eu gwireddu yn y dyfodol chwaith. Yn ogystal â hyn, mae eu rhagamcanion yn cyfrif y disgyblion ychwanegol yn unig ac nid ydynt yn adlewyrchu disgyblion a allai gael eu colli mewn blwyddyn.

Mae'r ystadegau a baratowyd gan Dîm Rheoli Gwybodaeth Ysgol ar gyfer pecyn rhagamcanion Ysgol Uwchradd John Summers ym mis Hydref 2014 yn y cam Oedi ac Adolygu yn cynhyrchu ystadegau tebyg gan ddefnyddio methodoleg wahanol:

	Gwirioneddol Medi 2014	2015 (yn cynnwys nifer derbyn cyfredol o 72)	2016	2017	2018	2019
Blwyddyn 7-11	311	310	305	306	301	327

Data Hanesyddol Gwirioneddol y Disgyblion

Blwyddyn y Cwricwlwm Cenedlaethol

Ysgolion Uwchradd Sir y Fflint (Ystod Statudol Blwyddyn y Cwricwlwm Cenedlaethol 7-11) ffynhonnell: Cyblld Ionawr

Rhif Ysgol	ENW'R YSGOL UWCHRADD	2015	2014	2013	2012	2011	2010	2009	2008	2007	2006
4019	Ysgol Uwchradd John Summers	315	325	324	329	348	390	404	437	462	472
4000	Ysgol Uwchradd Penarlâg	960	952	957	963	949	930	907	906	920	972
4013	Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney	422	424	460	501	545	563	551	552	538	517
4022	Ysgol Uwchradd Cei Connah	788	803	845	856	880	914	950	948	942	925

Nifer Blwyddyn Cwricwlwm 7 o'u cymharu â'r Nifer Derbyn								
		Nifer Derbyn (Cyfredol)	Iona wr 2015	Iona wr 2014	Iona wr 2013	Iona wr 2012	Iona wr 2011	Iona wr 2010
4000	Ysgol Uwchradd Penarlâg	195	193	193	187	195	198	195
4013	Ysgol Uwchradd Dewi Sant	117	88	75	89	72	87	103
4019	Ysgol Uwchradd John Summers	104	49	70	51	58	56	67
4022	Ysgol Uwchradd Cei Connah	198	162	173	174	164	151	161

Nifer ym mlwyddyn y cwricwlwm fel % o'r Nifer Derbyn

Nifer ym mlwyddyn y cwricwlwm fel % o'r Nifer Derbyn	Nifer Derbyn (Cyfredol)	2014/2015	2013/2014	2012/2013	2011/2012	2010/2011	2009/2010
4000	Ysgol Uwchradd Penarlâg	99.0	99.0	95.9	100.0	101.5	100.0
4013	Ysgol Uwchradd Dewi Sant	75.2	64.1	76.1	61.5	74.4	88.0
4019	Ysgol Uwchradd John Summers	47.1	67.3	49.0	55.8	53.8	64.4
4022	Ysgol Uwchradd Cei Connah	81.8	87.4	87.9	82.8	76.3	81.3

Yn ystod y 3 blynedd diwethaf nid yw niferoedd blwyddyn cwricwlwm 7 Penarlâg wedi rhagori ar eu niferoedd derbyn. Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf mae Niferoedd Blwyddyn Cwricwlwm 7 Ysgol Uwchradd John Summers wedi amrywio rhwng 49 a 70 h.y. rhwng 47% a 67%, mae hyn yn is na'r gyfradd trosglwyddo ar gyfer yr ysgolion eraill yn yr ardal.

Ymateb i'r Llywodraethwyr ynglŷn â niferoedd gormodol yn Ysgol Uwchradd Penarlâg

Dylai bod y Llywodraethwyr yn ymwybodol o'r materion yn ymwneud â gweithdrefnau capasiti, llefydd heb eu llenwi a pholisi derbyn gan fod y cyfan yn cael eu gweinyddu gan y Cyngor gyda pholisi a gweithdrefnau cyson. Mae eu datganiad yn peri pryder nad yw'r Llywodraethwyr yn ymwybodol o'r broses o fesur capasiti, gweithdrefnau derbyn ac apelïadau. Mae gan Sir y Fflint ac Awdurdodau Lleol eraill ysgolion sydd yn orlawn. Yn achos Ysgol Uwchradd Penarlâg, mae gorlenwi o ganlyniad i gyfuniad o'u llywodraethwyr yn derbyn

disgyblion i'w chweched dosbarth a phaneli apeliadau derbyn annibynnol yn penderfynu o blaid y ceisiadau unigol.

Ymateb i'r Llywodraethwyr mewn perthynas â Data Cynnyrch Tai Posibl

Mae'r holl ddata ynglŷn â'r niferoedd o ganlyniad i'r datblygiadau tai wedi'i adolygu'n fanwl gyda'r llywodraethwyr yn ystod y cyfnod o oedi ac adolygu, ac fe gynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng y swyddogion a Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Queensferry ac Ysgol Uwchradd John Summers. Ffurfiwyd grŵp cynrychioliadol o Lywodraethwyr hefyd i brofi gwytnwch y data ac ystyried a oedd gwybodaeth arall ar gael a all gefnogi cyflwyno achos busnes cyfalaf. Ni chyflwynwyd dewis amgen ar adeg y cam oedi ac adolygu na'r cyfnod ymgynghori diweddaraf.

Gweler Atodiad 3 – Cyd-destun Polisi Cynllunio ar gyfer datblygiad arfaethedig Porth y Gogledd

Ers y cam oedi ac adolygu ychydig sydd wedi newid yn natblygiad Porth y Gogledd. Mae'r gwaith ar arglawdd yr afon yn parhau, fodd bynnag nid oes unrhyw gynlluniau materion a gadwyd yn ôl hyd yn hyn y byddai'r Awdurdod Cynllunio yn eu disgwyl cyn dechrau'r gwaith adeiladu.

Fformiwla Cynnyrch Tai

Yn ystod y cam oedi ac adolygu ar y prosiect cyfalaf, defnyddiodd y Cyngor y fformiwla ganlynol i ffurfio'r ffigyrau posibl ar gyfer cynnyrch tai: Mae'r fformiwla'n deillio o ymchwilio gwaith sawl awdurdod. Rhannwyd hyn gyda'r llywodraethwyr yn ystod y broses oedi ac adolygu ac roedd ganddynt gyfle digonol i herio.

Gan gymhwysu'r fformiwla cynnyrch tai, os yw'r safleoedd datblygu tai o fewn Porth y Gogledd yn cael eu datblygu i'r capasiti mwyaf o 1325 o dai (ffynhonnell: caniatâd cynllunio amlinellol) ac, wrth gymhwysu'r fformiwla cynnyrch tai newydd (0.17 fesul cartref ar gyfer ysgol uwchradd heb ôl 16) cyfanswm y plant oedran ysgol uwchradd a 'gynhyrchir' fyddai'n gymwys i'w derbyn i ysgol Uwchradd John Summers fyddai 231. Os tybir y byddai'r garfan lawn o blant yn cael eu derbyn i Ysgol Uwchradd John Summers dim ond 535 o ddisgyblion fyddai ym mhoblogaeth yr ysgol (gan ddefnyddio nifer amcangyfrifedig 2016/17 305+231 o'r uchafswm cynnyrch tai) pan gyfunir y niferoedd hyn.

Adolygiad o'r Fformiwla Cynnyrch Tai – Rhagfyr 2014

Fodd bynnag, ers y cam oedi ac adolygu mae'r Cyngor wedi adolygu ei fformiwla cynnyrch tai a bydd yn awr yn defnyddio fformiwla newydd:

Nifer yr Unedau

Cynhelir y taflenni Cynnyrch Tai gan y Tîm Darpariaeth Ysgolion yn seiliedig ar gyngor gan yr Adain Gynllunio a'r Amgylchedd. Mae'r cynllunwyr yn darparu amcangyfrif o gyfanswm nifer yr unedau sy'n debygol o gael eu hadeiladu, gan gynnwys statws caniatâd cynllunio a nifer o ffactorau allanol eraill. Mae'r unedau hyn yn cael eu hychwanegu at y taflenni Cynnyrch Tai i ragweld

niferoedd y disgyblion sy'n debygol o gael eu cynhyrchu o ganlyniad i'r tai newydd hyn. Diweddarwyd y taflenni Cynnyrch Tai ym mis Mawrth 2014.

Deiliadaeth

Y gyfradd daliadaeth ddiweddaraf yn Sir y Fflint yw 2.38, sy'n seiliedig ar ddata a gyhoeddwyd yn Nogfen Cyfrifiad Ystadegau Allweddol 2011 Conwy¹ (Mae Cyngor Conwy'n darparu'r gwasanaeth hwn ar gyfer Sir y Fflint). Mae deiliadaeth yn cael ei gynhyrchu trwy rannu cyfanswm y boblogaeth mewn tai preifat gyda nifer yr 'aelwydydd gyda phreswylwyr arferol'.

Mae'r ddogfen hon yn gwahaniaethu rhwng cyfanswm yr aelwydydd yn Sir y Fflint a'r aelwydydd a deiliadaeth, fel y nodir isod. Y cyfrifiad ar gyfer deiliadaeth felly yw:

Deiliadaeth Sir y Fflint 2011	Cyfansymiau
Poblogaeth mewn tai preifat ¹	151,679
Aelwydydd (gyda phreswylwyr arferol) ¹	63,781
Deiliadaeth	2.38

Disgwyliad Oes

Cafwyd data disgwyliad oes o wefan Ystadegau Cymru ² ac mae'n defnyddio data a gasglwyd rhwng 2010-12. Y cyfraddau hynny yn ôl y cyhoeddiad oedd: Gwryw 79.0, Benyw 82.4. Mae'r rhain yn cael eu rhannu â 2 i gael cyfartaledd: 80.7.

Nifer y Carfannau

Y ffigur hon yn nifer y carfannau o fewn y math o ysgol a chaiff ei defnyddio i gyfrifo'r cynnyrch a ragwelir o ddeiliadaeth a disgwyliad oes (h.y. Cynradd - 8 carfan, Uwchradd (11-18 oed) 6.0 carfan). (Noder mae niferoedd y chweched dosbarth wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'r fformiwla wedi'i ddiweddarau ym mis Rhagfyr 2014 i adlewyrchu hyn)

Fformiwla Cynnyrch Tai Sir y Fflint

Mae'r cynnyrch cyfredol yn cael ei greu yn defnyddio'r fformiwlâu uchod ar sail un uned.

Ffactor Cynnyrch Cynradd	0.24
--------------------------	------

¹ Cyfrifiad 2011 – Ystadegau Allweddol Sir y Fflint, Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (Wedi'u cynhyrchu gan Uned Gwybodaeth ac Ymchwil Corfforaethol, Conwy, Conwy)

²Ystadegau Cymru- Disgwyliad oes fesul awdurdod lleol a rhyw (ar gyfer 2010-2012) Uned Ystadegau a Dadansoddi Iechyd, Llywodraeth Cymru (Cyhoeddwyd Tachwedd 2013)

Ffactor Cynnyrch Uwchradd (ar gyfer ysgolion gyda chweched dosbarth)	0.18
Ffactor Cynnyrch Uwchradd (ar gyfer ysgolion heb chweched dosbarth)	0.15

Gan gymhwyso'r fformiwla cynnyrch tai newydd, os yw'r safleoedd datblygu tai o fewn Porth y Gogledd yn cael eu datblygu i'r capasiti mwyaf o 1325 o dai (ffynhonnell: caniatâd cynllunio amlinellol) ac, wrth gymhwyso'r fformiwla cynnyrch tai newydd (0.15 fesul cartref ar gyfer ysgol uwchradd heb ôl 16) cyfanswm y plant oedran ysgol uwchradd a 'gynhyrchir' fyddai'n gymwys i'w derbyn i ysgol Uwchradd John Summers fyddai 199. Os y tybir y byddai'r garfan lawn o blant yn cael eu derbyn i Ysgol Uwchradd John Summers dim ond 504 o ddisgyblion fyddai ym mhoblogaeth yr ysgol (gan ddefnyddio nifer amcangyfrifedig 2016/17 305+199 o'r uchafswm cynnyrch tai) pan gyfunir y niferoedd hyn.


Yr oedd yn wir yn y cam oedi ac adolygu ac mae'n parhau felly'n awr, ni fydd cyfradd y datblygiad tai arfaethedig yn amddiffyn yr ysgol rhag gostyngiad yn y gofrestr a'r gyllideb wrth i galedi gael effaith pellach yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Nid yw'r ffigyrau a gynhyrchwyd ar gyfer cynnyrch tai disgwylidig yn ystyried cyflymdra'r datblygiad h.y. gan dybio bod y datblygwyr yn diwallu eu targedau, ni fydd y safle wedi'i ddatblygu'n llawn tan 2028. Yn ogystal, nid yw'r ffigyrau cynnyrch tai yn ystyried dewis rhieni a /neu symudiad disgyblion h.y. disgyblion sy'n symud i dai newydd ond sydd eisoes yn y system addysg leol.

Byddwch yn nodi fod y Cyngor wedi defnyddio'r fformiwla cynnyrch a ddefnyddiwyd yn flaenorol yn y cam oedi ac adolygu er cysondeb ac i osgoi dryswch gyda'r ymgylgoreion er bod yr hen fformiwla yn cynhyrchu cynnyrch posibl mwy. Mae'r ffigyrau Tai newydd sy'n is yn cymhlethu rhagamcanion Ysgol Uwchradd John Summers ymhellach.

Ymateb i Lywodraethwyr ar Ragweld y Dyfodol

Cyrhaeddodd genedigaethau yn Sir y Fflint ac ardal Shotton / Queensferry uchafbwynt yn 2009/2010 (cyfwerth blwyddyn academiaidd). Bydd y genedigaethau hyn yn effeithio ar dderbyniadau i Flwyddyn Cwricwlwm 7 yn 2021. Ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers, derbyniadau ym mis Medi 2014 o 49 o gymharu â genedigaethau o 133 ac yn cynrychioli 37%. Y cyfartaledd ar gyfer y 4 blynedd diwethaf yw 41%.



Cyrhaeddodd nifer y genedigaethau yn Sir y Fflint ac ardal Shotton / Queensferry uchafbwynt yn 2009/2010

195 oedd yr uchafswm o enedigaethau yn ardal Shotton / Queensferry.

Bydd y genedigaethau hyn yn effeithio ar Flwyddyn y Cwricwlwm 7 yn 2021.

Gan gymryd uchafbwynt genedigaethau o 195 a chymhwyso'r cyfartaledd o 41%, yna'r uchafswm niferoedd derbyn ar gyfer blwyddyn 7 y cwricwlwm y gellir eu cyflawni yw 80, gryn dipyn yn is na ffigur 4 dosbarth derbyn o 120.

Ymateb i'r Llywodraethwyr mewn perthynas â Maint Priodol ar gyfer Ysgol

Yn ymatebion y Llywodraethwyr i'r ymgynghoriad, gwnaed honiad bod maint llai yn well yn achos Ysgol Uwchradd John Summers. Fodd bynnag, roedd adroddiad Estyn ym mis Rhagfyr 2013 a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystyried maint ysgolion ac effeithiolrwydd addysgol ac roedd ganddynt safbwynt wahanol.

Mae diffiniad Estyn o faint ysgol fel a ganlyn. Diffinnir ysgolion uwchradd bach fel rhai gyda 600 o ddisgyblion neu lai, mae gan ysgolion uwchradd canolig rhwng 601 a 1,100 o ddisgyblion, ac mae gan ysgolion uwchradd mawr 1,101 neu fwy o ddisgyblion.

Ystyriodd adroddiad Estyn effeithiolrwydd addysgu ysgolion bach, canolig a mawr yn seiliedig ar ganfyddiadau arolygiadau o'r gylched bresennol o arolygon (2010-2013) ac ar ôl archwilio ac asesu canlyniadau. Mae'n ystyried canlyniadau, darpariaeth ac arweinyddiaeth ysgolion o wahanol feintiau ac yn canolbwyntio ar ddangosyddion ansawdd arolwg sy'n ymwneud â safonau, lles, profiadau dysgu, addysgu, arweinyddiaeth a gwella ansawdd.

Mae nifer o ffactorau sy'n gallu dylanwadu ar berfformiad ysgol yn ogystal â maint yr ysgol. Amddifadedd yw un ffactor pwysig sy'n gallu effeithio ar berfformiad ysgol ac mae Estyn yn ystyried ei effaith yn eu hadroddiad.

Crynodeb o Adroddiad Estyn ar gyfer Ysgolion Uwchradd

Mae angen llai o weithgareddau dilynol mewn ysgolion uwchradd mawr nag mewn ysgolion bach neu ganolig. Dim ond un ysgol uwchradd fawr sydd wedi'i gosod mewn categori statudol (gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig) yn dilyn arolwg ers 2010. Mae'r ffigyrau ar gyfer gweithgarwch dilynol yn nodi bod ysgolion uwchradd bach neu ganolig yn fwy tebygol o gael meysydd i'w gwella nag ysgolion uwchradd mawr.

Mae cyfran fawr o ysgolion uwchradd bach angen eu monitro gan yr awdurdod lleol. Gall hyn fod oherwydd, er bod perfformiad yn dda ar y cyfan, mae gan yr ysgolion bach fwy o faterion bychain i'w datrys.

Yn gyffredinol, mae ysgolion uwchradd mawr yn gwneud yn well nag ysgolion uwchradd bach neu ganolig yn yr holl ddangosyddion ansawdd arolygu. Y gwahaniaethau mwyaf yw arweinyddiaeth a phrofiadau dysgu, lle bo ysgolion uwchradd mawr yn llawer cryfach. Ar wahân i un ysgol uwchradd fach, mae'r holl ysgolion uwchradd sy'n rhagorol o faint canolig neu fawr.

Mae canfyddiadau arolwg yn dangos bod cyfran uwch o ysgolion uwchradd mawr yn derbyn canlyniad da neu well ar gyfer yr holl ddangosyddion ansawdd a nodwyd yn yr astudiaeth hon o gymharu ag ysgolion uwchradd canolig a bach. Mae'r bwlch mwyaf ar gyfer safonau, profiadau dysgu, arweinyddiaeth a gwella ansawdd.

Nodwedd gyffredin o lwyddiant ysgolion uwchradd yw arweinyddiaeth gryf. Lle bo'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well, gall ysgolion uwchradd o bob maint lwyddo. Fodd bynnag, mae ffactorau'n ymwneud ag arbedion effeithlonrwydd sy'n ei gwneud yn fwy heriol i ysgolion uwchradd bach wneud yn dda mewn rhai agweddau o'u gwaith. Fodd bynnag, pan fo arweinwyr ysgolion uwchradd bach yn arloesol ac yn canolbwyntio ar wella perfformiad, gallant oroesi'r rhwystrau hyn ac mae ysgolion uwchradd bach yn gallu llwyddo.

Canlyniadau – Safonau a Lles

Safonau

Wrth farnu safonau, mae'r arolygwyr yn ystyried perfformiad ysgolion o ran data, a sut y mae disgyblion yn caffael y sgiliau a'r wybodaeth y maent eu hangen i symud ymlaen i'r cyfnod dysgu nesaf. Mae canlyniadau arolygon yn nodi, yn gyffredinol, bod y rhain yn well mewn ysgolion uwchradd mawr.

Mae perfformiad yn well mewn ysgolion uwchradd mawr ar gyfer bron yr holl ddangosyddion arholiadau ac asesiadau. Mae data Llywodraeth Cymru'n nodi bod canran y disgyblion sy'n cyflawni dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 yn well mewn ysgolion uwchradd mawr o gymharu ag ysgolion uwchradd bach a chanolig. Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng ysgolion uwchradd bach a chanolig a'r ysgolion mawr wedi gostwng ychydig dros y tair blynedd diwethaf ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, lle bo dim gwahaniaeth yn y bwlch perfformiad mewn Cymraeg.

Mae'r bwlch rhwng ysgolion uwchradd mawr a'r ysgolion uwchradd bach a chanolig yn fwy ar gyfer lefel 6 na lefel 5 ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae hyn yn golygu bod yr ysgolion uwchradd mawr yn darparu lefel o her sy'n fwy priodol a chefnogaeth i alluogi'r disgyblion sy'n fwy galluog ac eu galluogi i gyflawni lefelau sy'n uwch na'r disgwyl.

Ar gyfer cyfnod allweddol 4, mae perfformiad disgyblion yn y pynciau craidd yn well mewn ysgolion uwchradd mawr o gymharu ag ysgolion uwchradd bach a chanolig. Yr eithriad yw Cymraeg iaith gyntaf, lle bo ysgolion bach a chanolig yn gwneud yn well nag ysgolion uwchradd mawr.

Ceir darlun tebyg gyda'r canran o ddisgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg. Mae'r dangosydd tua wyth pwynt canran yn uwch mewn ysgolion uwchradd mawr o gymharu ag ysgolion uwchradd bach a chanolig.

Lles

Mae lles yn dda neu'n well yn y mwyafrif o'r ysgolion uwchradd mawr ac mewn nifer o ysgolion uwchradd bach a chanolig.

Mae bron pob ysgol uwchradd lle y bernir lles yn ddigonol yn unig, yn cynnwys diffygion o ran presenoldeb. Lle bo lles yn anfoddfaol mae materion gydag ymddygiad disgyblion ac mae'r cyfraddau gwahardd disgyblion yn uchel. Yn yr ysgolion hyn, mae safon lles gwael yn cael effaith andwyol ar y canlyniadau ar gyfer y disgyblion.

Darpariaeth: profiadau dysgu ac addysgu

Profiadau dysgu

Mae darpariaeth y cwricwlwm yn tueddu i fod yn ehangach ac yn fwy cytbwys mewn ysgolion uwchradd mawr. Mae bron holl yr ysgolion uwchradd mawr yn darparu profiadau dysgu da neu well ar gyfer eu disgyblion tra bod profiadau dysgu yn dda neu'n well yn y mwyafrif o'r ysgolion uwchradd bach ac mewn nifer o ysgolion uwchradd canolig.

Mae ysgolion uwchradd gyda darpariaeth cwricwlwm da neu well yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau ac wedi ymateb yn dda i ofynion Llwybrau Dysgu 14-19 trwy gynllunio ar y cyd gyda sefydliadau eraill. Maent yn cynnig darpariaeth gynhwysfawr sy'n galluogi disgyblion i ennill ystod o gymwysterau. Lle bo nifer yn dymuno astudio cwrs penodol ac nid yw'n hyfyw mewn un lleoliad, gall ysgolion weithio gyda'i gilydd i gynnig yr opsiynau.

Mae ysgolion uwchradd bach a chanolig yn tueddu i fod yn fwy dibynnol ar gefnogaeth y partneriaethau 14-19 i ddarparu ystod addas o gyrsiau ar gyfer eu disgyblion. Lle bo'r partneriaethau hyn yn wan, bydd ysgolion uwchradd bach a chanolig yn llai tebygol o gael yr ystod o opsiynau ar gael. Mae ysgolion uwchradd mawr yn fwy annibynnol ac yn llai dibynnol ar bartneriaethau i ddarparu opsiynau cwricwlwm. Maent yn gallu cael mynediad i amrywiaeth ehangach o opsiynau oherwydd eu harbedion effeithlonrwydd.

Addysgu

Mae addysgu ac asesu yn dda neu'n well mewn 63% o ysgolion uwchradd mawr, ond mewn llai na hanner o'r ysgolion uwchradd bach neu ganolig. Mae addysgu yn rhagorol mewn 25% o'r ysgolion uwchradd mawr, ond dim ond mewn 10% o'r ysgolion uwchradd canolig a 4% o'r ysgolion uwchradd bach.

Mewn ysgolion uwchradd mawr, mae gan adrannau pwnc fwy nag un athro fel arfer, sy'n galluogi athrawon i rannu arfer da a datblygu cynllunio a darparu'r cwricwlwm. Hefyd, mae sicrwydd ansawdd yn tueddu i fod yn gryfach ac mae arweinwyr ysgol wedi datblygu systemau gwell i fynd i'r afael ag addysgu gwael. Mewn ysgolion uwchradd mawr, mae'r athrawon yn fwy tebygol o fod yn addysgu yn eu maes arbenigol eu hunain, lle bo athrawon mewn ysgolion bach a chanolig yn addysgu meysydd sydd y tu hwnt i'w pwnc arbenigol yn achlysurol. Mewn rhai amgylchiadau, mae adrannau ysgolion uwchradd bach yn gweithio'n effeithiol gydag adrannau yn eu hysgol ac adrannau tebyg mewn ysgolion cyfagos i rannu arfer da ac i elwa o arbedion effeithlonrwydd.

Mae gweithdrefnau asesu yn tueddu i fod yn gryfach mewn ysgolion uwchradd mawr. Y rheswm pennaf dros hyn yw bod arweinwyr ysgol yn yr ysgolion hyn yn fwy effeithiol wrth sicrhau dull ysgol gyfan gyson o ran asesu, sy'n cael ei fonitro a'i werthuso'n systematig. Dros amser, mae'r dulliau hyn yn cael eu hymgorffori, eu gwella a'u datblygu ar draws pob maes pwnc. Mewn lleiafrif o ysgolion bach a chanolig, nid yw'r gweithdrefnau asesu yn ddigon effeithiol. Yn aml mae gormod o amrywiaeth rhwng yr adrannau. Mae gan yr ysgolion hyn ddiffyg canolbwynt a dull ysgol gyfan i weithredu gweithdrefnau asesu ac nid

yw polisiâu ysgol yn cael eu deall, eu gweithredu, eu monitro nac eu gwerthuso'n ddigon dda.

Arweinyddiaeth a Rheoli: arweinyddiaeth a gwella ansawdd

Arweinyddiaeth

Mae arweinyddiaeth o leiaf yn dda yn bron yr holl ysgolion uwchradd mawr a arolygwyd. Yn aml mae gan benaethiaid ysgolion uwchradd mawr gofnod da o rolau arwain blaenorol fel dirprwy benaethiaid neu benaethiaid mewn ysgolion llai. Mae ysgolion uwchradd mawr yn tueddu i gael strwythurau a phrosesau arwain sydd wedi'u hymgorffori'n dda, wedi'u trefnu'n dda ac yn gyson, a threfniadau rheoli perfformiad effeithiol.

Mewn ysgolion uwchradd bach, mae gan gyfran fawr o'r staff gyfrifoldeb pwnc a chyfrifoldeb ysgol gyfan. Mewn nifer o'r ysgolion uwchradd bach hyn, mae cyfleoedd datblygu proffesiynol da yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau arwain cyffredinol. Gall y datblygiad proffesiynol gael dylanwad cryf ar nifer o agweddau o fywyd ysgol. Er enghraifft, mae arweinwyr canol yn aml yn arwain gweithgorau sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol o'r cwricwlwm yn eu hysgolion gan ddatblygu eu sgiliau dadansoddi a gwerthuso safonau a darpariaeth. Maent yn datblygu prosesau effeithiol ar gyfer tracio cynnydd disgyblion a dadansoddi data, y maent yn ei ddefnyddio i hysbysu addysgu a dysgu ac i ysgogi disgyblion i lwyddo. Fodd bynnag, pan nad yw'r rolau hyn yn cael eu cefnogi gan ddatblygiad proffesiynol da, mae diffygion bron pob tro o ran effeithiolrwydd arweinyddiaeth ganol yn yr ysgolion uwchradd bach hyn.

Mater arwyddocaol sy'n berthnasol i ysgolion uwchradd bach ac i ryw raddau i ysgolion uwchradd canolig yw bod cynllunio dilyniant yn aml yn wan. Pan fydd aelodau allweddol o staff yn gadael yr ysgol, fel arfer mae oedi am gyfnod rhy hir cyn y disodlir eu sgiliau. Fel arfer gall ysgolion uwchradd mawr wneud trefniadau dros dro byrdymor i ymdrin â'r mater hwn ond, oherwydd bod adrannau pwnc mewn ysgolion bach a chanolig yn cynnwys ychydig o athrawon, gall un neu ddau o athrawon sy'n gadael gael effaith andwyol ar y canlyniadau ar gyfer disgyblion ym meysydd y pwnc a ddysgir gan yr aelodau hyn o staff. Mae hyn yn waeth ar gyfer meysydd pwnc lle bo diffyg, megis gwyddoniaeth, ac yn fater penodol mewn ysgolion gwledig a chyfrwng Cymraeg.

Gwella Ansawdd

Mae gwella ansawdd a sicrhau gwelliant yn dda neu'n well mewn nifer o ysgolion uwchradd mawr, mewn tua hanner yr ysgolion uwchradd bach ac mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd canolig.

Mewn ysgolion uwchradd bach a chanolig lle bo gwella ansawdd yn ddigonol neu'n waeth, nid yw arweinwyr uwch yn canolbwyntio'n ddigonol ar safonau a darpariaeth. Dim ond dylanwad rhannol sydd gan brosesau hunanwerthuso ysgolion ar gynllunio strategol ac mae tystiolaeth gyfyngedig o effaith y prosesau hyn ar wella canlyniadau i ddisgyblion. Yn aml nid yw dadansoddi data'n canolbwyntio ar pa mor dda y mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag

ysgolion tebyg ac nid yw staff yn dadansoddi cyfresi data craidd yn ddigon trylwyr i werthuso perfformiad yr holl grwpiau o ddisgyblion, yn enwedig disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. O ganlyniad, nid yw arweinwyr ysgol yn cymryd camau penodol i wella safonau ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr.

Lle bo diffygion o ran sicrwydd ansawdd mewn ysgolion bach a chanolig, yn aml y rheswm dros hyn yw bod diffyg tystiolaeth i nodi beth sydd angen ei wella. Y rheswm dros hyn yw bod sgiliau hunanwerthuso arweinwyr canol heb eu datblygu'n ddigonol, yn enwedig eu sgiliau o arsylwi a dadansoddi effeithiolrwydd yr addysgu. Yn aml mae diffyg cysondeb a gormod o amrywiaeth yn ansawdd yr arsylwadau gwersi a chraffu gwaith y disgyblion. Mae gwerthusiadau o ansawdd yr addysgu a'i effaith ar ddysgu yn aml yn rhy gryno ac yn rhy gadarnhaol ac nid yw meysydd i'w gwella mewn addysgu a dysgu'n cael eu blaenoriaethu'n ddigon da mewn cynlluniau adrannol. O ganlyniad, mae diffygion pwysig yn ansawdd cyffredinol yr addysgu yn hanner yr ysgolion hyn. Hefyd mae gormod o amrywiaeth yn ansawdd cynllunio gwelliant ar lefel arweinyddiaeth ganol.

Hyd yn oed mewn ysgolion uwchradd mawr, nid yw effaith sicrwydd ansawdd ar addysgu mor gryf ag y mae mewn ardaloedd eraill. Lle bo sicrwydd ansawdd yn rhagorol, mae arweinwyr ysgol yn canolbwyntio ar drechu addysgu gwael trwy arsylwadau gwersi trylwyr a thargedau clir ar gyfer gwella. Yn bron yr holl ysgolion sydd ag addysgu rhagorol, mae prosesau sicrwydd ansawdd rhagorol hefyd ar waith.

Maint ysgol ac amddifadedd

Mae'r dystiolaeth yn y penodau blaenorol yn awgrymu bod ysgolion mawr yn tueddu i berfformio'n well nag ysgolion bach a chanolig. Fodd bynnag, mae nifer o ffactorau sy'n gallu dylanwadu ar berfformiad ysgol yn ogystal â maint yr ysgol. Mae amddifadedd yn ffactor arall sy'n gallu effeithio ar berfformiad ysgol. Mewn gwirionedd, ceir tystiolaeth gref bod ysgolion uwchradd mewn ardaloedd breintiedig yn tueddu i berfformio'n well nag ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig.

Y mesurydd a ddefnyddir yn aml ar gyfer amddifadedd yw canran y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Nodir canran y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn yr ysgolion a arolygwyd yn y cylchred hwn yn y tabl isod, yn ôl maint yr ysgolion:

Disgyblion sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim	
Ysgolion uwchradd bach	20.2 %
Ysgolion uwchradd canolig	20.3%
Ysgolion uwchradd mawr	16.4 %

Ymateb i'r Llywodraethwyr ynglŷn â Chyllid

Mae'r ffigwr arbedion a ddyfynnwyd yn y ddogfen o £383,000 o arbedion refeniw blynyddol yn seiliedig ar ddyraniadau ysgolion trwy'r fformiwla cyllido ysgolion.

Mae'r arbediad hwn yn eithrio cyllid sy'n cael ei arwain gan ddisgyblion, y tybir y bydd yn dilyn myfyrwyr i ysgolion amgen.

Mae'r ffigwr hefyd yn eithrio elfennau o'r costau refeniw cylchol ar gyfer costau gwasanaethu statudol ar gyfer profion nwy, trydan, clefyd y Llengfilwyr y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cyflawni yn yr ysgol.

Nid yw'r ffigwr uchod yn cynnwys costau cynnal a chadw; ar hyn o bryd mae gofyniad i wario tua £623,065 (1/4/2015) i atgyweirio a chynnal a chadw'r ysgol yn y pum mlynedd nesaf fel rhan o'r gwaith cynnal a chadw sy'n weddill yn Ysgol Uwchradd John Summers.

Yn ogystal â hyn, trwy weithio trwy broses achos busnes cyfalaf, casglodd y Cyngor mai'r datrysiad adeiladu gorau ar gyfer y safle oedd ail-adeiladu'r ddarpariaeth uwchradd. Er bod adnewyddu yn bosibl wrth gwrs, dewisodd y Cyngor yr opsiwn o ail-adeiladu am dri rheswm craidd:

- 1) Byddai'n darparu gwell cynnyrch terfynol;
- 2) byddai'n cael llai o amhariaeth ar weithrediadau'r ysgol; ac
- 3) mae pryderon iechyd a diogelwch sylweddol o ran tynnu asbestos mewn prosiect adnewyddu mewn amgylchedd ysgol fyw.

Mae angen buddsoddiad mawr yn yr ysgol o hyd, roedd y ffigyrau a amcangyfrifwyd ar gyfer y campws cyffredinol dros £18m. Pe bai'r ysgol yn parhau yn y system nid yw'r niferoedd disgyblion presennol ac amcanol yn ddigonol i gefnogi achos busnes i Lywodraeth Cymru. Felly byddai angen i'r Cyngor ystyried sut y gallai ariannu buddsoddiad cyfalaf sylweddol ar y safle wrth reoli bwch yn y gyllideb refeniw o thua £52m dros y tair blynedd nesaf.

Pe bai Ysgol Uwchradd John Summers yn aros ar agor byddai caledi, nifer y disgyblion a lleihau cyllidebau ysgol yn arwain at yr ysgol yn methu â chynnal y grŵp presennol o staff. Ni fyddai'n gallu cynnal ehangder y cwricwlwm sydd ei angen ar gyfer y mesur Dysgu a Sgiliau. Bydd methu â gweithredu hefyd yn cael effaith gyllidebol negyddol ar ysgolion uwchradd ar draws Sir y Fflint.

Ymateb i'r Llywodraethwyr ynglŷn â Chludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

O ran cludiant, er y bydd rhai disgyblion yn gymwys i dderbyn cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim dan y pellter statudol o dair milltir o'r cartref i'r ysgol, ni fyddai mwyafrif y disgyblion yn gymwys. Cost gyfredol cludiant i Ysgol Uwchradd John Summers yw £59,470. Gallai'r Cabinet ystyried cynnig trefniadau cludiant pontio dewisol ar gyfer y garfan ysgol bresennol gyda chost blynyddol a amcangyfrifwyd yn £135,125, cynnydd o £75,655 yn 2017/18, gan leihau yn y blynyddoedd dilynol. Byddai hyn yn cefnogi'r cynlluniau pontio ac

yn mynd i'r afael â maes pryder allweddol ar gyfer y myfyrwyr presennol. Byddai cost cludiant i gefnogi parhad TGAU yn tua £20,000 ar gyfer 2016/17.

Ymateb i'r Llywodraethwyr ynglŷn ag Addasrwydd darpariaeth

Addasrwydd yr adeiladau

Mae rheoli llefydd ysgol wedi bod yn gyfrifoldeb craidd ar gyfer yr Awdurdod Lleol ers Deddf Addysg 1902.

Gosododd Llywodraeth Cymru darged y dylai'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru gael Cynlluniau Rheoli Asedau ar waith. Y nod oedd sicrhau gwell gwerth am arian o'r asedau cyfalaf. Mae gan yr awdurdodau lleol yng Nghymru bedwar prif fath o ased gyda gwerth dros £8.8 biliwn (amcangyfrifiad 2001) sef:

- tir ac adeiladau, y mae ysgolion yn ffurfio canran uchel o'r portffolio;
- swyddfeydd gweinyddol a depos cerbydau;
- eiddo anweithredol, h.y. eiddo dros ben sy'n aros i gael ei werthu, asedau sy'n cael eu hadeiladu, eiddo masnachol neu ddiwydiannol; a
- asedau isadeiledd, ffyrdd yn bennaf.

Mae angen buddsoddiad sylweddol i gynnal yr asedau hyn ac mae ôl-groniad sylweddol o waith cynnal a chadw wedi'i nodi (ac yn parhau i dyfu). Mae canllawiau Rheoli Asedau CLAW (Consortium Awdurdodau Lleol yng Nghymru) yn gwneud y Datganiadau canlynol: "Ar ei orau gall eiddo gweithredol hwyluso darpariaeth gwasanaeth effeithiol. Ar ei waethaf gall ddefnyddio staff ac adnoddau ariannol ac amharu ar ddarpariaeth gwasanaeth. Y prif ddulliau ymarferol y gall yr ystâd weithredol gael effaith andwyol ar ddarpariaeth gwasanaeth yw:

- a) Gweithredu o ormod o adeiladau
- b) Tanwario ar waith cynnal a chadw a gynlluniwyd
- c) Gweithredu o eiddo aneffeithlon
- d) Tan-fuddsoddi mewn adeiladau / cyfleusterau priodol

Dylai'r broses adolygu nodi:

- a) Eiddo dros ben
- b) Ôl-groniad cynnal a chadw a lefel difrifoldeb
- c) Addasrwydd ac amrywiaeth mewn gofynion glasbrint a'r angen gwirioneddol
- d) Gofynion buddsoddi / derbyniadau cyfalaf sydd ar gael.

Yr ystyriaeth gyntaf wrth asesu a yw adeilad yn addas yw a oes ei angen yng nghyd-destun stad yr Awdurdod Lleol.

Mae gan Ysgol Uwchradd John Summers ddiffygion difrifol o ran addasrwydd presennol yr adeilad, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch sy'n cwestiynu hyfywedd hirdymor yr ysgol. Mae'r Cyngor wedi amcangyfrif £25m o ôl-groniad o waith atgyweirio a chynnal a chadw ar draws portffolio ysgolion a dros 2000 o lefydd heb eu llenwi yn y sector uwchradd, gyda 860 o lefydd heb eu llenwi

mewn Ysgol Uwchradd lleol yn yr ardal (gan gynnwys Ysgol Uwchradd John Summers) erbyn mis Medi 2016.

Mae canran y llefydd dros ben yn ysgolion Sir y Fflint yn parhau i fod yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru o 10%.

Gan fod cyllid ar gyfer ysgolion yn cael ei gymell i raddau helaeth gan nifer y disgyblion, mae capasiti dros ben yn golygu bod cyfran annigonol o gyllid yn cael ei wario ar isadeiledd (megis adeiladau) a "chostau penodedig" ar gyfer rhedeg ysgol (megis arweinyddiaeth a gweinyddu).

Gellir defnyddio'r arian hwn yn well i sicrhau bod cymarebau disgyblion athrawon yn cael eu lleihau i wneud gwahaniaeth uniongyrchol i ddysgwyr. Wrth i gyllid gwasanaethau cyhoeddus ostwng yn y blynyddoedd sydd i ddod mae'r achos dros ail-flaenoriaethu a newid yn fwy cymhellol.

Mae newid sefydliadol mewn ysgolion yn parhau'n ddull allweddol sydd ar gael i'r Cyngor i fynd i'r afael â diffygion o'r fath.

Casglodd y gwaith dichonoldeb ar gampws Queensferry bod cyfanswm y gost i sicrhau bod y campws yn cyrraedd y safon yn £18m, roedd mwyafrif y gwariant ar y campws yn gysylltiedig â dymchwel ac ailadeiladu'r ysgol uwchradd.

Er bod modd adnewyddu'r ysgol yn dechnegol, dewisodd y Cyngor, yn ei astudiaethau dichonoldeb, yr opsiwn ailadeiladu am dri phrif reswm 1)byddai'n darparu cynnyrch terfynol gwell 2)Llai o amhariaeth ar weithrediad yr ysgol 3)pryderon lechyd a Diogelwch o ran tynnu asbestos mewn prosiect adnewyddu mewn amgylchedd ysgol 'fyw'.

Felly, mae angen buddsoddiad mawr yn yr ysgol o hyd, roedd y ffigyrau a amcangyfrifwyd ar gyfer y campws cyffredinol dros £18m. O ystyried y nifer annigonol a'r galw yn y dyfodol, byddai'n well pe bai'r buddsoddiad cyfalaf yn cael ei ddefnyddio mewn man arall yn yr ystâd ysgolion.

Pe bai Ysgol Uwchradd John Summers yn cau a'r datblygiad Porth y Gogledd yn cynhyrchu gymaint o ddisgyblion fel bod gormod mewn ysgolion, byddai'r Cyngor yn ceisio cyllid cyfalaf trwy gytundebau A106. Byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i ystyried cynyddu'r capasiti ar y pwynt hwnnw. Fodd bynnag, nid yw'r niferoedd a ragwelir a'r ffigyrau cynnyrch tai yn debygol o arwain at gynnydd mewn darpariaeth uwchradd, ond gallai gael rhywfaint o effaith ar ddarpariaeth cynradd lleol, megis Ysgol Gynradd Sealand.